

Rhif: WG33477



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal
Cymdeithasol (Cymru) 2016

Cam 2 y broses weithredu – Gofynion y Gwasanaeth

Tachwedd 2017

Cynnwys	Tudalen
Adran 1	
1.1 Cyflwyniad	1
1.2 Y dystiolaeth dros newid	2
1.3 Yr ymgynghoriad hwn	3
1.4 Digwyddiadau ymgynghori	4
1.5 Newidiadau i Reoliadau Cam 1 o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn	4
1.6 Y camau nesaf	5
Adran 2	
Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru	6
Adran 3	
Crynodeb a dadansoddiad o'r ymatebion i'r holiadur pobl ifanc	55
Atodiadau	
Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr	61
Atodiad B – Crynodeb o'r newidiadau i Reoliadau Cam 1 i ystyried canlyniadau ymgynghoriad Cam 2	66

Adran 1

1.1 Cyflwyniad

Cafodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016') Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Mae'n amlinellu'r fframwaith statudol newydd ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac mae'n diwygio sut y mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru'n cael ei reoleiddio. Mae felly'n disodli systemau perthnasol a roddwyd ar waith yn flaenorol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Mae Deddf 2016 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno nifer o eitemau o is-ddeddfwriaeth trwy wneud rheoliadau, ynghyd â chyhoeddi canllawiau a chyhoeddi'r codau ymarfer. Mae'r gwaith gweithredu hwn yn cael ei wneud i raddau helaeth mewn tri cham:

Cam 1 (2016/17)

Roedd y cam hwn yn cynnwys rheoliadau yn ymwneud â'r system newydd o reoleiddio'r gweithlu sydd eu hangen o dan Ddeddf 2016. Daeth y rhain i rym ar 3 Ebrill. Ochr yn ochr â'r rhain, datblygodd Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) – rheoleiddiwr y gweithlu– y rheolau a'r gweithdrefnau sy'n llywodraethu ei brosesau cofrestru a rheoleiddio.

Mae dolenni at bob un o'r rheoliadau hyn i'w gweld drwy Hyb Gwybodaeth a Dysgu GCC: <https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-rhagc-rheoliadau>

Roedd Cam 1 hefyd yn cynnwys ymgynghoriad ar Reoliadau a fydd yn llywodraethu cofrestru¹ ac amrywiadau cofrestru) darparwyr gwasanaeth ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ar ôl Ebrill 2018, gofynion a roddir ar y darparwyr gwasanaeth hynny o ran gwneud Datganiadau Blynyddol², ac sy'n rhagnodi materion y mae'n rhaid i AGGCC hysbysu awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yn eu cylch³. Mae'r dyddiadau pan gyflwynwyd y Rheoliadau hyn a phryd y byddant yn dod i rym fel a ganlyn:

Rheoliad	Dyddiad gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Dyddiad pryd y daw i rym
Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017	29 Medi 2017	1 Chwefror 2018
Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017	2 Hydref 2017	2 Ebrill 2018
Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau) (Cymru) 2017	3 Hydref 2017	2 Ebrill 2018

¹ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld11204/sub-ld11204-w.pdf>

² <http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld11207/sub-ld11207-w.pdf>

³ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld11209/sub-ld11209-w.pdf>

Cam 2 (2017/18)

Mae'r cam hwn yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol yn ymwneud â'r gofynion ar ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol i ddarparu gofal a chymorth yn y gwasanaethau rheoleiddiedig canlynol:

- gwasanaethau cartref gofal (i oedolion a phlant)
- llety diogel i blant
- gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
- gwasanaethau cymorth cartref

Mae Cam 2 hefyd yn cynnwys rheoliadau drafft sy'n ymwneud â'r gweithlu sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cymorth cartref i wahaniaethu rhwng amser teithio ac amser gofal wrth drefnu'r gwasanaethau hynny. Mae'r rheoliadau drafft hefyd yn cynnwys gofynion i gynnig dewis o drefniadau contract amgen i staff cymorth cartref ar contractau oriau heb eu gwarantu. Mae cynnig i ehangu'r gofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol i gynnwys gweithwyr cymorth cartref o 2018 ymlaen hefyd wedi'i gynnwys.

Cam 3 (2018/19)

Mae'r cam hwn yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol sy'n ymwneud â'r gofynion ar ddarparwyr gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol wrth ddarparu gofal a chymorth mewn gwasanaethau mabwysiadu (Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ac Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu), gwasanaethau maethu, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau eiriolaeth.

1.2 Y dystiolaeth dros newid

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ("AGGCC") a'r cyn Gyngor Gofal Cymru ("CGC") fel rheolyddion yng Nghymru, a hefyd y sector gofal cymdeithasol ehangach yng Nghymru wedi gwneud llawer i gyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd ar adeg gweithredu Deddf Safonau Gofal 2000.

Roedd y fframwaith o dan y Ddeddf honno, gydag AGGCC a CGC fel y prif reolyddion, wedi gweithio'n dda. Roedd yn rhoi gwaelodlin ar gyfer safonau - i'r gweithlu ac i'r gwasanaethau gofal a chymorth - ac mae'n ddi-os wedi gwella trefniadau gwarchod cyhoeddus. Mae hyn wedi arwain at lawer mwy o gysondeb, diogelu rhag cam-drin a cham-fanteisio, ac wedi amlygu'n well unrhyw wasanaethau nad ydynt yn cyrraedd safonau gofynnol. Rydym wedi llwyddo i godi safonau perfformiad ac rydym yn parhau i ddefnyddio rheoleiddio ac arolygu i ddileu safonau gwael. Fodd bynnag, ers hynny rydym wedi cydnabod bod llawer o bethau wedi newid o fewn ac o gwmpas y sector, ac rydym wedi gweld yr angen i sicrhau nad yw ein trefniadau rheoleiddiol yn dyddio a'r angen i helpu i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy. Mae ein diwygiad o'r system, trwy Ddeddf 2016, felly'n seiliedig ar bum prif egwyddor:

- Ymatebolrwydd i ddiwygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;
- Sicrhau bod gofal a chymorth yn canolbwyntio ar ddinasyddion;
- Datblygu dull cydlynus a Chymreig;
- Mynd i'r afael â methiant darparwyr; ac
- Ymateb i fodolau gwasanaeth newydd ac unrhyw bryderon sy'n dod i'r amlwg ynglŷn ag ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth.

Mae gan y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ran bwysig i'w chwarae i wasanaethu ac i hybu'r diwygiad hwn.

1.3 Yr ymgynghoriad hwn

Fel rhan o Gam 2 y broses o weithredu Deddf 2016, buom yn ymgynghori ar Rheoliadau sy'n gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol dynodedig sy'n darparu gofal a chymorth o fewn gwasanaethau rheoleiddiedig (o dan adrannau 27 a 28 o'r Ddeddf). Datblygwyd canllawiau statudol drafft hefyd o dan adran 29 o'r Ddeddf i gynnwys rhagor o fanylion am sut y gall darparwyr ac unigolion cyfrifol gydymffurfio â'r gofynion yn y Rheoliadau.

Mae'r Rheoliadau drafft Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017 hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n:

- nodi'r gwasanaethau nad ydynt yn cael eu trin fel gwasanaethau rheoleiddiedig i ddibenion y Ddeddf (a wnaed o dan adran 2(3));
- nodi'r amgylchiadau lle gall Gweinidogion Cymru ddynodi unigolyn fel unigolyn cyfrifol (a wnaed o dan adran 21(5))
- cynnwys dyletswyddau hysbysu yn gysylltiedig â darparwyr gwasanaethau sy'n mynd yn fethdalwyr neu pan fydd darparwr gwasanaeth sy'n unigolyn wedi marw (a wnaed o dan adrannau 30 a 31);
- nodi pa dor-ofynion yng nghyswllt y gofynion a roddir ar ddarparwyr gwasanaeth mewn rheoliadau o dan adran 27, a'r gofynion a roddir ar unigolion cyfrifol mewn rheoliadau o dan adran 28, fydd yn cael eu trin fel troseddau (a wnaed o dan adrannau 45 a 46);

Mae'r Rheoliadau hyn yn weithredol yn achos gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel, gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau gofal cartref. Bydd rheoliadau tebyg ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu (Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ac Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu), gwasanaethau maethu, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu datblygu a byddant yn destun ymgynghori yn 2018, fel rhan o'r broses o weithredu Cam 3.

Ymgynghorwyd hefyd ar y Rheoliadau drafft Gwasanaethau Rheoledig (Hysbysiadau Cosb) 2017 yn ystod Cam 2. Mae'r Rheoliadau hyn yn disgrifio cynllun rheoliadau cosb ar gyfer troseddau penodol ar wyneb Deddf 2016 neu

droseddau a grëwyd trwy reoliadau o dan adran 45 ac adran 46 o Ddeddf 2016 (fel sydd wedi'u cynnwys Rheoliadau Gwasanaethau Rheoledig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) 2017).

Cafwyd cyfanswm o 115 o ymatebion i'r ymgynghoriad, a oedd yn rhedeg o 2 Mai tan 25 Gorffennaf 2017. Roedd rhai o'r ymatebion yn rhai naratif yn unig ac nid ydynt felly'n ymddangos yn y crynodeb o ymatebion blwch ticio yn yr adroddiad hwn. Cafodd pob ymateb ei ystyried yn yr un ffordd o ran y sylwadau a gafwyd. Amgaeir rhestr o ymatebwyr yn Atodiad A. Mae crynodeb o'r ymatebion, ynghyd â dadansoddiad a chasgliadau Llywodraeth Cymru yn Atodiad 2.

Cafodd holiadur pobl ifanc, a oedd yn cynnwys gwybodaeth ar y gofynion a gaiff eu gosod ar ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal i blant hefyd ei gyhoeddi, a chafwyd 26 o ymatebion o 7 sefydliad gwahanol ledled Cymru. Cafodd y rhain eu hystyried ochr yn ochr â'r ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad a gafwyd ac mae crynodeb o'r ymatebion, ynghyd â dadansoddiad a sylwadau Llywodraeth Cymru i'w cael yn Adran 3.

1.4 Digwyddiadau Ymgynghori

Cynhaliwyd pedwar digwyddiad ymgynghori fel rhan o'r broses ymgynghori. Nod y digwyddiadau oedd annog rhanddeiliaid i ymateb ac i alluogi'r rhai oedd yn bresennol i:

- cael trosolwg o'r fframwaith deddfwriaethol drafft a'r prif newidiadau a fydd yn deillio ohono
- cadarnhau eu dealltwriaeth o'r cynigion a chael eglurder arnynt, os oedd angen
- ystyried y goblygiadau posibl i'w rôl a'u sefydliad

Cynhaliwyd y ddau ddigwyddiad cyntaf ar 21 Mehefin yn Stadiwm Swalec, Caerdydd. Cynhaliwyd y trydydd a'r pedwerydd ar 13 Gorffennaf ym Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam. Ar y cyfan, roedd y niferoedd a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau'n galonogol, gydag oddeutu 100 yn bresennol yng Nghaerdydd ac 80 o gynrychiolwyr yn Wrecsam. Cafodd ystod o sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a'r trydydd sector eu cynrychioli, gan gynnwys nifer o ddarparwyr gwasanaeth.

1.5 Newidiadau i Reoliadau Cam 1 o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn

Cafodd yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn eu defnyddio hefyd fel sail i ddatblygu'r Rheoliadau Cam 1 sy'n weddill, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddiwedd mis Medi a dechrau mis Hydref 2017, a disgwylir iddynt ddod i rym yn gynnar y flwyddyn nesaf:

- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017⁴
- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017⁵
- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau) (Cymru) 2017⁶

Gwnaethpwyd rhai newidiadau i'r Rheoliadau a grëwyd yng Ngham 1 o ganlyniad i newidiadau a wnaethpwyd i'r Rheoliadau yng Ngham 2, i sicrhau cysondeb ar draws y gyfres o reoliadau gwasanaeth. Ceir crynodeb o'r newidiadau a wnaethpwyd i'r Rheoliadau yng Ngham 1, yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar, yn Atodiad B.

1.6 Y camau nesaf

Ar ôl dadansoddi ac ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, cafodd Rheoliadau drafft Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) 2017 a'r Rheoliadau drafft Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) 2017 eu newid, fel y bo'n briodol. Caiff y Rheoliadau sy'n gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru fis Tachwedd i'w trafod ym mis Rhagfyr. Caiff y Rheoliadau sy'n ymwneud â hysbysiadau cosb eu gosod ym mis Rhagfyr. Mae disgwyl i'r ddwy set o Reoliadau ddod i rym ar 2 Ebrill 2018.

Ar ôl eu gosod bydd y Rheoliadau a'u Memoranda Esboniadol ar gael i'w gweld yn: <http://www.assembly.wales/cy/bus-home/Pages/Plenary.aspx?assembly=5&category=Laid%20Document>

⁴ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld11204/sub-ld11204-w.pdf>

⁵ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld11207/sub-ld11207-w.pdf>

⁶ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld11209/sub-ld11209-w.pdf>

Adran 2

Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru

Noder y canlynol:

- Yn yr adran hon mae'r crynodeb o'r ymatebion ac ymateb Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw i'r Rheoliadau drafft a'r canllawiau statudol drafft. Mae'r canllawiau statudol yn ymwneud â Rhannau 3 i 19 o'r rheoliadau drafft yn unig.
- Mae cyfeiriadau at 'y Rheoliadau' naill ai'n cyfeirio ar yr ymgynghoriad drafft o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 neu Reoliadau Gwasanaethau Rheoledig (Hysbysiadau Cosb) 2017, fel fo'n briodol yn y cyd-destun.
- Mae cyfeiriadau at y 'canllawiau statudol' yn cyfeirio ar y canllawiau statudol drafft fel sy'n amodol ar yr ymgynghoriad hwn.
- Y dull a fabwysiadwyd wrth ddatblygu'r Rheoliadau drafft oedd sicrhau bod y gofynion:
 - **Yn gymesur:** dylai'r gofynion ymwneud â materion sydd o fewn rheolaeth y darparwr gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol, ac a fydd yn arwain at wella ansawdd ac ymarfer;
 - **Yn gyson** ar draws yr holl wasanaethau rheoledig: nid yw hyn i ddweud bod "un esgid yn ffitio pawb" ond y dylid cymhwyso'r un safonau uchel ar draws pob gwasanaeth.
 - **Yn rhoi ffocws ar ganlyniadau i bobl:** y bwriad yw bod y gofynion yn galluogi darparu gwasanaethau sy'n helpu pobl i gyflawni *beth sy'n bwysig iddynt*, yn unol ag ethos Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nod y gofynion yw rhoi digon o hyblygrwydd i'r darparwyr er mwyn gallu gofalu am a chefnogi pobl mewn ffordd sy'n rhoi'r unigolyn wrth galon eu gofal.
- Gan fod rhai canrannau wedi cael eu talgrynnu ni fyddant bob amser yn rhoi cyfanswm o 100%.

RHAN 2 : EITHRIADAU

Bydd angen i wasanaethau sy'n dod o dan y diffiniad o "wasanaethau rheoledig", a roddir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf, gofrestru â'r rheoleiddiwr gwasanaeth cyn darparu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae rheoliadau yn Rhan 2 y Rheoliadau– a wnaed o dan adran 2(3) y Ddeddf – yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi pethau na ddylid eu trin fel gwasanaeth rheoledig, er gwaethaf Atodlen 1. Ni fyddai angen i'r gwasanaethau hyn gofrestru â'r rheoleiddiwr gwasanaeth.

Cwestiwn 1: Ydy'r eithriadau arfaethedig sydd wedi eu nodi ar gyfer y gwasanaethau rheoledig yn rhai priodol? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
36 (31%)	30 (26%)	8 (7%)	3 (3%)	40 (34%)

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r eithriadau arfaethedig.

Gofynnodd nifer fath o ymatebwyr am eithrio trefniadau gofal a chymorth cydweithredol bach ar gyfer unigolion penodol na fyddai o bosibl yn cael eu rheoleiddio fel arall fel gwasanaethau cymorth cartref o gwmpas y rheoliad. Nododd ymatebwyr ddau fath o drefniadau cydweithredol:

(a) cynlluniau cydweithredol 'teuluoedd' anghorfforedig (trefniant sy'n cynnwys hyd at bedwar teulu lle mae aelod o'r teulu'n cael Taliadau Uniongyrchol ac sy'n defnyddio'r arian hwn i gyflogi Cynorthwywyr Personol (CP)). Mae pob unigolyn sy'n cael Taliadau Uniongyrchol yn parhau i gyflogi eu CP eu hunain ond mae teuluoedd yn ffurfio cynllun cydweithredol i ddarparu cymorth ar y cyd ac i elwa ar unrhyw ddarbodion maint;

(b) y 'model cydweithredol micro ar gyfer dinasyddion, a'u teuluoedd, ffrindiau a chefnogwyr'. O dan y trefniant hwn mae'r cynllun cydweithredol wedi'i gorffori ac mae'n cyflogi'r CP ac felly mae'r cyfrifoldebau am gyflogi staff yn cael eu rhannu.

Roedd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn gofyn am eithrio trefniadau cydweithredol sy'n cael eu ffurfio gan Gynorthwywyr Personol. Disgrifiwyd hwn fel trefniant a oedd yn eu galluogi i hysbysebu eu gwasanaethau ac i drefnu a phrynu hyfforddiant ar y cyd a all fod y tu hwnt i'w cyrraedd fel unigolion.

Roedd un ymatebwr am weld canolfannau dydd yn cael eu heithrio ac roedd un arall am gael eglurder am sefyllfa canolfannau dydd.

Roedd sawl ymatebwr am weld CP yn dod o fewn cwmpas rheoleiddio. Yn gysylltiedig â hyn, roedd nifer o ymatebion yn mynegi pryder am y diffyg rheoleiddio ymddangosiadol ar gyfer Asiantaethau Cynorthwywyr Personol.

Roedd rhai ymatebwyr yn amau'r eithriad ymddangosiadol i wasanaethau 'seibiant' oherwydd eithriad gwasanaethau sy'n darparu llety, ynghyd â nyrsio neu ofal, i oedolyn am lai na 28 diwrnod.

Mae Adran 3 o Ddeddf 2016 yn cynnwys diffiniad o 'ofal' a diffiniad o 'gymorth' ac mae'n datgan yn eglur bod cyfeiriadau at 'ofal a chymorth' i gael eu dehongli fel cyfeiriadau at a) ofal, b) cymorth, neu c) gofal a chymorth. Roedd nifer o ymatebwyr yn bryderus gan fod y diffiniad o 'gymorth' yn weddol gyffredinol a'i fod yn cynnwys cwnsela, cyngor a help arall y gallai olygu bod gwasanaethau fel cymorth tai a gwasanaethau ataliol eraill yn dod o fewn cwmpas y rheoliad.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Trefniadau Gofal a Chymorth Cydweithredol Bach

Ni fyddai trefniant cydweithredol nad yw'n cyflogi cynorthwywyr personol ac sy'n bodoli i ddarparu cyd-gymorth i'w aelodau fel y disgrifiwyd yn (a) uchod yn dod o fewn cwmpas rheoleiddio fel y'i diffinnir ym mharagraff 8(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 2016. O ganlyniad, nid oes angen newid y Rheoliadau. Bydd canllawiau cofrestru gweithredol rheoleiddiwr y gwasanaeth yn cynnwys yr eglurder angenrheidiol.

Mae sefydliad sy'n cyflogi pobl i ddarparu gofal a chymorth i unigolion yn wasanaeth gofal cartref ac ni fyddai felly'n dod o fewn yr eithriad ym mharagraff 8(2) o Atodlen 1 i Ddeddf 2016. Hefyd, nid yw micro gynlluniau cydweithredol fel y'u disgrifiwyd yn (b) uchod sy'n cyflogi CP yn dod o fewn unrhyw rai o'r eithriadau 'trydydd parti cysylltiedig' yn rheoliad 3(3). Fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai'n anghymesur bod trefniant o'r math hwn yn dod o fewn cwmpas rheoleiddio fel gwasanaeth cymorth cartref. Rydym felly wedi newid y Rheoliadau a fyddai felly'n eithrio'r math hwn o drefniant o gwmpas rheoleiddio. Bydd yr eithriad hwn yn weithredol yn achos unrhyw sefydliad sy'n darparu gofal a chymorth i bedwar neu lai o unigolion penodol ar unrhyw adeg.

Mewn gwirionedd nid yw trefniadau cydweithredol sy'n cael eu ffurfio gan Gynorthwywyr Personol i hysbysebu eu gwasanaethau neu i gael hyfforddiant ar y cyd yn dod o fewn cwmpas rheoleiddio ac felly nid oes sail i gynnwys eithriad yn y Rheoliadau. Unwaith eto, gall canllaw cofrestru gweithredol y rheoleiddiwr roi eglurder ar hyn o beth.

Canolfannau dydd

Nid yw canolfannau dydd yn wasanaeth rheoleiddiedig fel sydd wedi'i diffinio yn Atodlen 1 i Ddeddf 2016 ac nid ydynt yn dod o fewn y diffiniad o "wasanaethau cymorth cartref" am nad yw'r gofal a'r cymorth yn cael ei ddarparu i'r unigolyn

yn ei gartref ei hun. Nid oes angen diwygio'r Rheoliadau felly i eithrio canolfannau dydd o'r diffiniad o wasanaeth rheoleiddiedig.

Cynorthwyr Personol ac Asiantaethau Cynorthwyr Personol

Mae Cynorthwyr Personol wedi'u heithrio o gwmpas rheoleiddio yn sgil Atodlen 1, paragraff 8(2)(a) i Ddeddf 2016.

O ran Asiantaethau Cynorthwyr Personol mae eithriad yn Atodlen 1, paragraff 8(3) i Ddeddf 2016 sy'n gymwys i 'berson sy'n cyflwyno unigolion sy'n darparu gwasanaeth cymorth cartref i unigolion a all ddymuno ei gael ond nad oes ganddo unrhyw rôl barhaus yng nghyfarwyddyd neu reolaeth y gofal a'r cymorth a ddarperir i'w drin fel pe bai'n darparu gwasanaeth cymorth cartref (ni waeth pa un a yw'r cyflwyniad er elw ai peidio). Nid oes sail i newid y Rheoliadau ond bydd canllaw cofrestru gweithredol y rheolydd gwasanaeth yn cynnwys rhagor o fanylion ar ystyr 'rôl barhaus yng nghyfarwyddyd neu reolaeth y gwasanaeth'. Yn amlwg, os yw natur y gwasanaethau hyn yn golygu y dylent ddod o fewn cwmpas cofrestru yna dylent gofrestru fel gwasanaethau cymorth cartref. Mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn drosedd i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig heb iddo fod wedi'i gofrestru i wneud hynny.

Seibiannau byr

Mae bwriad i wasanaethau sy'n darparu llety, ynghyd â nyrsio neu ofal, i oedolion am gyfnod o 28 diwrnod neu fwy mewn unrhyw gyfnod o 12 mis i ddod o fewn cwmpas rheoleiddio. Mae'r Rheoliadau wedi cael eu newid i wneud cwmpas yr eithriad yn eglur.

RHAN 3: GOFYNION CYFFREDINOL

Mae Rhan 3 yn ymwneud â'r gofynion cyffredinol ar ddarparwr gwasanaeth o ran sut y darperir y gwasanaeth. Mae'n cynnwys gofynion yn ymwneud â'r datganiad o bwrpas; trefniadau ar gyfer monitro a gwella; materion yn ymwneud â'r unigolyn cyfrifol dynodedig a gofynion yn ymwneud â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth. Mae'r Rhan yma'n nodi materion yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau. Mae hefyd yn rhoi 'dyletswydd gonestrwydd' ar ddarparwyr gwasanaeth i weithredu mewn ffordd agored a thryloyw.

Cwestiwn 2: Ydy'r gofynion yn y Rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, rhwch eglurhad.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
20 (17%)	46 (39%)	8 (7%)	2 (2%)	41 (35%)

Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r Gofynion Cyffredinol.

Roedd nifer o ymatebwyr yn bryderus ynglŷn â'r gofyniad ar ddarparwyr gwasanaeth i hysbysu'r rheoleiddiwr, unigolion (a'u cynrychiolwyr) a'r awdurdod lleol 28 diwrnod cyn i unrhyw ddiwygiad i'r Datganiad o Ddiben ddod i rym. Roedd teimlad nad oedd y gofyniad hwn yn caniatáu ar gyfer gwneud newidiadau ar fwy o frys.

Mae'r Rhan hon yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaeth o ran yr unigolyn cyfrifol. Awgrymwyd y dylid cael mwy o eglurder yn achos darparwr gwasanaeth sy'n unigolyn ac sydd felly hefyd yn unigolyn cyfrifol.

Mae'r rheoliadau hyn yn delio â threfniadau y mae'n rhaid i ddarparwr gwasanaeth eu gwneud pan fydd yr unigolyn cyfrifol yn 'absennol'. Mae nifer o ymatebion wedi dehongli'r term 'absennol' fel heb fod yn bresennol yn gorfforol yn y gwasanaeth ac mae hyn wedi achosi dryswch.

Mae'r rheoliadau'n gosod gofyniad ar ddarparwyr i gyflenwi copïau o gyfrifon ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig i Weinidogion Cymru o fewn 28 diwrnod ar ôl cael cais i wneud hynny. Awgrymwyd nad oedd y term 'unrhyw ddogfennau cysylltiedig' yn ddigon eglur.

Gwnaethpwyd nifer o awgrymiadau yn gysylltiedig â'r canllaw statudol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r Rheoliadau wedi cael eu diwygio i gydnabod achosion lle bydd angen i ddarparwr gwasanaeth ddiwygio'r Datganiad o Ddiben ar unwaith a'r gofynion a fydd yn weithredol mewn amgylchiadau o'r fath. Mae'r canllawiau statudol hefyd wedi cael eu diwygio i roi eglurder. Bydd y rheolydd yn cyhoeddi canllawiau Datganiad o Ddiben ar wahân ar ei wefan.

Mae'r Rheoliadau wedi cael eu diwygio i roi eglurder lle bydd y darparwr gwasanaeth yn unigolyn ac, felly, hefyd yn unigolyn cyfrifol.

Yn achos yr unigolyn cyfrifol, mae'r term 'absennol' wedi cael ei newid gyda'r geiriau 'yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau'. Mae'r canllawiau statudol wedi cael eu diwygio i roi mwy o eglurder.

Mae'r Rheoliadau wedi cael eu diwygio i ddileu'r term 'a dogfennau cysylltiedig'. Ar ôl ystyried adborth o'r ymgynghoriad nid yw'r term hwn yn ddigon clir ac mae'n ddiangen. Mae Adran 32 o Ddeddf 2016 yn bŵer a fyddai'n caniatáu i'r rheolydd gael unrhyw ddogfennau pellach os tybia fod angen am hynny.

Mae'r canllawiau statudol hefyd wedi cael eu diwygio i ystyried awgrymiadau eraill, er enghraifft, o ran y ddyletswydd gonestrwydd a'r gofyniad o ran yr unigolyn cyfrifol.

RHAN 4: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETH O RAN Y CAMAU SYDD I'W CYMRYD CYN CYTUNO I DDARPARU GOFAL A CHYMORTH

Mae Rhan 4 yn trafod y camau sydd i'w cymryd cyn y bydd darparwr gwasanaeth yn cytuno i ddarparu gofal a chymorth i unigolyn. Y bwriad yma yw sicrhau bod y gwasanaeth yn addas ac yn gallu cwrdd ag anghenion yr unigolyn a hefyd yn gallu cefnogi'r unigolyn i gyflawni eu canlyniadau personol. Rhaid i'r penderfyniad ar addasrwydd y gwasanaeth ystyried cynllun gofal a chymorth yr unigolyn o dan adran 54 neu adran 83 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cwestiwn 3: Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y blwch isod os gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
32 (27%)	40 (34%)	4 (3%)	0 (0%)	41 (35%)

Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch os gwelwch yn dda.

Crynodeb o'r ymatebion

Dewisodd mwyafrif yr ymatebwyr i beidio â chynnwys sylwadau gyda'r cwestiwn hwn.

O'r rhai a ymatebodd, roedd llawer yn cytuno â'r egwyddor ac yn croesawu'r Rheoliad hwn. Dywedodd un ymatebwr y byddai'r trefniadau'n helpu i gynllunio gwasanaethau sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau a derbyniadau effeithiol ac y byddai'n helpu unigolion trwy gyfnod pontio anodd.

Roedd peth pryder ynglŷn â sut y byddai'r trefniadau'n gweithio'n ymarferol. Dywedodd rhai darparwyr ei bod weithiau'n anodd cael gwybodaeth amserol, berthnasol a chyfoes am unigolyn er mwyn gwneud y penderfyniad. Dywedodd rhai darparwyr y gallai'r diffyg gwybodaeth achosi oedi cyn dechrau darparu gofal a chymorth. Pwysleisiodd ychydig o ymatebwyr y bydd angen cymorth gan yr awdurdod lleol ar ddarparwyr i allu cyflawni gofynion y rheoliad hwn yn llawn.

Cododd ambell ymatebwr y pwynt y dylai'r darparwr, wrth wneud penderfyniad ar addasrwydd gwasanaeth i unigolyn, hefyd ystyried y peryglon i lesiant unigolion eraill sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Roedd llawer yn cytuno bod y canllawiau statudol yn eglur a buddiol. Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ychwanegol ynglŷn â'r diffiniad o "derbyn achosion brys" a beth a dybid a fyddai'n dderbyniol yn yr amgylchiadau

hyn. Barn un ymatebwr oedd na ddylid byth cytuno i dderbyn heb asesiad gan unigolyn cymwys a gyflogir gan y darparwr.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Wrth wneud penderfyniad ar addasrwydd y gwasanaeth i unigolyn rydym yn cytuno y dylai'r darparwr hefyd ystyried y peryglon i lesiant unigolion eraill sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r Rheoliadau wedi cael eu diwygio gyda golwg ar hyn.

Gwnaethpwyd diwygiadau i'r canllawiau statudol i ychwanegu eglurder at rai meysydd – er enghraifft, yn achos polisi a gweithdrefnau'r darparwr yn ymwneud â derbyniadau a dechrau gwasanaeth a gwybodaeth i'w chasglu fel rhan o'r broses benderfynu. Mae mwy o bwyslais hefyd ar ymgysylltu â'r awdurdod lleoli.

Er ein bod yn cydnabod yr effaith ar arferion comisiynu awdurdodau lleol yn y broses hon, ni all y Rheoliadau osod dyletswyddau ar gomisiynwyr awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu mesurau ar wahân i roi sylw i faterion comisiynu. Mae angen cefnu ar ddiwylliant lle mae comisiynu'n cael ei weld fel 'swyddogaeth ystafell gefn' sy'n rhoi ystyried y gost yn unig. Dylid edrych arno'n hytrach fel rhan o'r dull cyffredinol sy'n seiliedig ar gyflawni canlyniadau llesiant yr unigolyn. Mae'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn gweithio â chomisiynwyr a darparwyr i ddatblygu dull seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer comisiynu integredig.

RHAN 5: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETH O RAN Y CAMAU SYDD I'W CYMRYD WRTH DDECHRAU DARPARU GOFAL A CHYMORTH

Mae Rhan 5 yn trafod y camau sydd i'w cymryd unwaith y bydd y darparwr gwasanaeth wedi gwneud penderfyniad a chytuno i ddarparu gofal a chymorth i unigolyn. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i lunio 'cynllun personol' yn nodi sut y bydd anghenion yr unigolyn yn cael eu cwrdd o ddydd i ddydd. Y bwriad yma yw sicrhau bod cynllun cywir a diweddar yn ei le sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd i addasu i unrhyw newid yn amgylchiadau'r unigolyn. Mae hefyd yn ofynnol i'r darparwr gwasanaeth gyflawni eu hasesiad eu hunain o ran sut y gall y gwasanaeth gwrdd orau ag anghenion gofal a chymorth yr unigolyn, a sut y gall helpu'r person i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt gan ystyried barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn.

Cwestiwn 4: Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch os gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
23 (20%)	44 (38%)	9 (8%)	3 (3%)	38 (32%)

Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch os gwelwch yn dda.

Crynodeb o'r ymatebion

Cawsom nifer o sylwadau manwl ac adeiladol ar gyfer y Rhan hon o'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol. Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion ar y cyfan ond cafwyd awgrymiadau ynglŷn â sut y dylai'r broses asesu a chynllunio weithio â'i gilydd.

Cafwyd sylwadau ar yr amserlenni i gwblhau asesiadau, cynlluniau personol ac adolygiadau o gynlluniau personol. Roedd rhai'n teimlo nad oedd 7 diwrnod yn ddigon i gynnal asesiad cyfannol o anghenion yr unigolyn ac i ddeall yr hyn sy'n bwysig iddynt. Roedd rhai'n teimlo hefyd y byddai llunio cynllun personol o fewn 24 awr yn her. Roedd barn yr ymatebwyr am yr amserlen i adolygu cynlluniau personol yn amrywio – roedd rhai'n teimlo bod pob 3 mis yn rhy aml ac y byddai'n cynyddu'r baich biwrocraidaidd, gydag eraill yn teimlo y dylid eu cynnal yn fisol.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o fanylder am y broses asesu a chynllunio'n gyffredinol, sut y dylai'r rhannau hyn weithio â'i gilydd a sut y dylent alinio â phrosesau awdurdodau lleol. Mynegodd nifer o ymatebwyr, yn enwedig awdurdodau lleol, amheuan ynglŷn â sut y byddai'r gofynion am gynllun personol ac asesiad darparwr yn gweithio yn achos plant sy'n derbyn gofal sydd eisoes â Chynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 manwl.

Awgrymodd ychydig o sylwadau y dylid rhoi mwy o bwyslais ar egwyddorion cyd-gynhyrchu a dewis yr unigolyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cydnabod y gwahaniaeth barn ynglŷn â'r amserlenni ar gyfer asesu, cynllunio ac adolygu sut y mae gofal a chymorth unigolyn yn cael ei ddarparu. Er y bydd natur gofal a chymorth yn amrywio o berson i berson, rydym yn teimlo bod yr amserlenni hyn yn gosod disgwyliadau realistig a synhwyrol ar gyfer y gofynion allweddol hyn ac, felly, nid wnaethpwyd dim newidiadau i'r Rheoliadau. Y disgwyliad yw bod darparu gofal a chymorth yn broses iteraidd, a dylai darparwyr gwasanaeth adolygu cynlluniau unigolion os a phan fydd angen. Er enghraifft, os byddai darparwyr yn teimlo nad oeddent yn gallu cael digon o wybodaeth o fewn y 7 diwrnod cyntaf, dylid adolygu'r cynllun yn llawer cynharach na'r amserlen 3 mis a nodir yn y Rheoliadau.

Rydym wedi cryfhau safle'r unigolyn wrth ddewis a yw am gynnwys cynrychiolydd yn yr adolygiad o'u cynllun personol trwy ddiwygio'r Rheoliadau. Fel mae wedi'i ddrafftio mae'n ymddangos bod y penderfyniad yng ngofal y darparwr yn unig ac nid dyna'r bwriad. Mae'r Rheoliadau hefyd wedi cael eu diwygio i fynnu bod yr awdurdod lleoli'n cael ei gynnwys wrth gynnal neu ddiwygio asesiad darparwr.

Mae'r canllaw statudol wedi cael ei ddiwygio i egluro'r broses gynllunio a'r amserlenni ar gyfer cynlluniau personol – er enghraifft, yn achos derbyniad brys. Mae wedi'i ddiwygio hefyd i ddangos sut y byddai'r cynllun personol yn alinio â'r Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r canllaw statudol wedi'i ddiwygio i ddatgan bod yn rhaid i'r cynllun personol gael ei ddatblygu fel cydgynhyrchiad â'r unigolyn sy'n cael gofal a chymorth a / neu eu cynrychiolydd.

RHAN 6: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETH O RAN Y WYBODAETH SYDD I'W RHOI I UNIGOLION WRTH DDECHRAU DARPARU GOFAL A CHYMORTH

Mae Rhan 6 yn trafod gwybodaeth sy'n rhaid ei rhoi am y gwasanaeth mewn llawlyfr ysgrifenedig. Y bwriad yma yw rhoi eglurder ar ddiwylliant ac ethos y gwasanaeth rheoledig ac ar ystod o faterion eraill. Mae'r rheoliadau'n nodi rhai o'r gofynion ar gyfer y llawlyfr hwn; er enghraifft rhaid i'w iaith, arddull, cyflwyniad a'i fformat fod yn briodol gan ystyried y gwasanaeth rheoledig a'r unigolion y darperir gofal a chymorth ar eu cyfer..

Cwestiwn 5: Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch isod os gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
35 (30%)	31 (26%)	8 (7%)	1 (1%)	42 (36%)

Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r rheoliadau hyn a'r canllawiau statudol cyfatebol. Dywedodd rhai eu bod yn falch o weld bod y canllawiau ysgrifenedig yn ymdrin â phryderon a chwynion. Dywedodd ambell sylw y dylai'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol gydnabod ffyrdd eraill o ddarparu gwybodaeth nad oedd ar ffurf ysgrifenedig, fel fideos esboniadol. Gofynnodd rhai sut yr oedd canllawiau'r gwasanaeth yn cyfateb i'r "pecyn croeso" a argymhellwyd yn adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru *Lle i'w Alw'n Gartref?*

Croesawodd rhai ymatebwyr y gofyniad am gytundeb gwasanaeth gan gynnwys manylion am gostau, gan fod hyn yn rhoi mynediad at wybodaeth ystyrlon. Fodd bynnag, dywedodd rhai darparwyr gwasanaeth a ymatebodd na fyddai ganddynt wybodaeth am gostau gwasanaethau ar gyfer contractau awdurdodau lleol, a gofynnwyd am eglurhad yn y canllawiau statudol am yr hyn sy'n rhaid ei gynnwys.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd y Rheoliadau'n datgan o hyd bod yn rhaid i'r canllawiau i'r gwasanaeth fod yn ddogfen ysgrifenedig. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl y bydd darparwyr yn paratoi'r canllawiau mewn fformatau a chyfryngau a fydd yn hygyrch i'r gynulleidfa ac mae hyn wedi'i nodi yn y canllawiau statudol.

Un o'r argymhellion yn adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn, *Lle i'w Alw'n Gartref?* yw bod preswylwyr cartrefi gofal yn cael Pecyn Croeso, sy'n disgrifio sut y bydd anghenion unigolion yn cael eu diwallu a sut y bydd eu hawliau'n cael eu diogelu i sicrhau eu bod yn mwynhau'r ansawdd bywyd gorau posibl. Rydym wedi dewis galw hyn yn "canllawiau i'r gwasanaeth" yn y rheoliadau i'w gwneud yn gymwys ar draws yr ystod o wasanaethau rheoleiddiedig. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod angen i ddarparwyr cartrefi gofal greu dogfennau dyblyg. Mae gwaith a wnaethpwyd gan y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal i ddatblygu canllawiau'r "Pecyn Croeso" yn adnodd ychwanegol a all helpu darparwyr cartrefi gofal i ateb y gofynion yn y rheoliad hwn. Mae'r canllawiau statudol ar gynnwys y canllawiau ysgrifenedig hefyd wedi cael eu diwygio mewn ymateb i'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad.

<http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/guidance1/carehomepacks?skip=1&lang=cy>

Mae'r Rheoliadau wedi cael eu diwygio gyda gofyniad bod y canllawiau'n cael eu rhoi i'r awdurdod lleoli hefyd yn achos plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r canllawiau statudol wedi cael eu diwygio i egluro y dylai'r cytundeb gwasanaeth gynnwys manylion am gostau sy'n daladwy gan yr unigolyn a lle'n briodol costau eraill sydd wedi'u cynnwys gan yr awdurdod lleoli.

RHAN 7: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETH O RAN SAFON Y GOFAL A'R CYMORTH SYDD I'W DDARPARU

Mae Rhan 7 yn cynnwys gofynion yn ymwneud â safon y gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae'n cynnwys gofynion trosfwaol fydd yn ategu ansawdd y gwasanaeth. Mae hefyd yn cynnwys gofynion yng nghyswllt materion fel parhad gofal, darparu gwybodaeth, cwrdd ag anghenion iaith a chyfathrebu'r unigolyn a sicrhau bod unigolion yn cael eu trin gyda pharch a sensitifrwydd. Mae'r canllawiau statudol yn nodi'r manylion o ran sut y gallai darparwyr gwasanaeth gydymffurfio â'r gofynion hyn.

Cwestiwn 6: Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch isod os gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
30 (26%)	37 (32%)	5 (4%)	3 (3%)	42 (36%)

Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.

Crynodeb o'r ymatebion

Mae'r Rhan hon yn ymdrin ag ystod o ofynion, ac arweiniodd at amrywiaeth o sylwadau.

Roedd ymatebwyr yn croesawu'r pwyslais canolog ar lesiant a'r cysylltiad â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cafwyd sylwadau ar bwysigrwydd parch a sensitifrwydd o ran cymorth â llesiant emosiynol a meddyliol pobl. Cafwyd sylwadau positif ar y gofyniad i ddarparu gofal mewn ffordd sy'n hybu perthnasoedd personol a phroffesiynol da â staff ac unigolion.

Yn ôl y disgwyl, yn dilyn adborth tebyg yn y digwyddiadau ymgynghori, roedd llawer o bwyslais yn y rheoliad ar gymorth ymddygiad. Roedd ymatebwyr yn cytuno y dylai darparwyr gwasanaeth hybu dulliau cadarnhaol mewn sefyllfaoedd heriol. Roedd ambell ymatebwr yn teimlo bod angen i ddarparwyr gael polisiau clir ar reoli ymddygiad heriol a defnyddio technegau ataliaeth ag unigolion. Fodd bynnag, roedd llawer nad oedd yn hoffi'r termau "cymorth ymddygiad" nac "ymddygiad priodol" am eu bod yn teimlo eu bod wedi dyddio. Dywedodd rhai bod y cyfeiriad at gosb gorfforol yn ddiangen gan y byddai'n cael ei gyfrif fel trosedd beth bynnag, o dan ddeddfwriaeth arall. Nid oedd llawer o gonsensws rhwng yr ymatebwyr ynglŷn â pha ddull ddylai gael ei fabwysiadu yma.

Roedd yn ymddangos bod rhanddeiliaid wedi ystyried y canllawiau statudol yn drylwyr ac wedi cynnig sylwadau manwl. Dywedodd nifer o ymatebwyr fod y canllawiau statudol yn ymddangos yn rhy ragnodol ac yn rhy fanwl o'u cymharu

â rhannau eraill o'r canllawiau statudol. Roedd rhai'n teimlo bod angen eu haddasu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc yn well, gan fod yr ieithwedd yn ymddangos yn fwy addas ar gyfer cleientiaid hŷn. Awgrymodd un ymatebwr y dylai'r adran ar hylendid y geg ddod o flaen yr adran ar gynorthwyo pobl yn nyddiau olaf eu hoes.

Dywedodd un ymatebwr y dylai'r canllawiau statudol gyfeirio at gymorth gyda hunan ofal fel hunan feddyginiaeth. Roedd un ymatebwr hefyd yn bryderus nad oedd rhai agweddau ar y canllawiau statudol yn briodol wrth helpu â chanlyniadau rhai sy'n cael gofal yn unol â chredoau crefyddol. Roedd ymatebwr arall yn croesawu cynnwys iechyd y croen ond roedd yn teimlo bod y pwynt hwn hefyd yn rhy ragnodol. Cafwyd sylw a oedd yn gofyn am gynnwys canllaw ar adnabod poen a rheoli poen i rai ag anabledd gwybyddol.

Roedd nifer o ymatebion yn canolbwyntio ar y gofynion yn y canllawiau statudol ynglŷn â'r Gymraeg. Gofynnodd rhanddeiliad am fwy o eglurder am y gofyniad i weithio tuag at y "cynnig rhagweithiol". Tynnodd rai sylw at yr anhawster i recriwtio a hyfforddi staff Cymraeg eu hiaith. Fodd bynnag, roedd eraill yn croesawu'r pwyslais hwn ar y Gymraeg.

Awgrymodd un ymateb y dylid cynnwys cyfeiriad at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn y canllawiau statudol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu'r adborth manwl ac adeiladol a gafwyd ar y Rheoliadau a'r canllawiau statudol.

Mae'r gofyniad cymorth ymddygiad - yr iaith a'r bwriad - wedi bod yn destun llawer o drafod. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad rydym yn cydnabod nad yw'r gofyniad penodol hwn yn angenrheidiol mewn gwirionedd os oes digon o bwyslais yn y gofynion ar ddeall anghenion gofal a chymorth a chanlyniadau personol yr unigolyn, gan sicrhau bod yr unigolyn ac eraill yn cael eu diogelu a bod unigolion yn cael eu trin â pharch a sensitifrwydd. Rydym wedi dileu'r gofyniad hwn o'r Rheoliadau ond rydym wedi cryfhau ac egluro'r canllawiau statudol. Mae'r gwaharddiad ar y defnydd o unrhyw fath o gosb gorfforol a oedd yn sail i'r rhan hon o'r rheoliad wedi'i gadw fel gofyniad ar wahân ac wedi'i ail eirio fel ei fod yn cyfeirio at blant sydd wedi'u lletya mewn gwasanaeth cartref gofal neu wasanaeth llety diogel yn unig.

O ran y rheoliad ar "safonau gofal a chymorth – gofynion cyffredinol" rydym wedi diwygio'r rheoliad fel y dylai'r hysbysiad i'r unigolyn ac eraill sydd wedi'u rhestru yn y rheoliad gael ei wneud yn ysgrifenedig, mewn amgylchiadau lle na fydd darparwr mwyach yn gallu diwallu anghenion yr unigolyn oherwydd newid yn eu hanghenion asesedig. Bydd hyn yn lleihau'r posibilrwydd o gamddealltwriaeth rhwng partïon.

Rhan 7 – yn benodol y rheoliad â'r teitl "safonau gofal a chymorth – gofynion cyffredinol" – o bosibl yw conglaen y Rheoliadau a'r canllawiau statudol, sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod unigolion yn cael gofal a chymorth o safon uchel sy'n eu helpu i gyflawni'r pethau sy'n bwysig iddynt. Bydd natur y gofal a'r cymorth yn amrywio'n fawr o berson i berson, yn ddibynnol ar eu

hamgylchiadau unigol a'r gwasanaethau maent yn eu defnyddio. Y bwriad fu adlewyrchu amrywiaeth y gofal a'r cymorth o fewn y canllawiau statudol, gan ddangos sut y *gall* darparwyr ddarparu gofal a chymorth mewn gwahanol amgylchiadau. Fodd bynnag, ar ôl myfyrio ar y sylwadau rydym wedi gwneud newidiadau i'r canllawiau statudol trwy:

- dileu cyfeiriadau at dulliau penodol sy'n gysylltiedig ag asesiadau iechyd y croen. Mae hyn yn ymateb i sylwadau bod y canllawiau statudol yn rhy ragnodol ac yn sicrhau na fyddant yn dyddio os na fydd y dulliau hyn yn cael eu gweld fel yr opsiwn a ffefrir
- addasu agweddau penodol i sicrhau eu bod yn briodol i unigolion sy'n cael gofal a chymorth yn unol â chredoau crefyddol yr unigolyn
- ychwanegu manylion am wasanaethau i blant a phobl ifanc mewn ymateb i rai sylwadau bod gormod o bwyslais ar oedolion yn y canllawiau
- cynnwys cyfeiriad at hunan ofal, fel hunan feddyginiaeth, mewn perthynas â hybu annibyniaeth
- ychwanegu rhywfaint o arweiniad ar adnabod poen a rheoli poen yn achos rhai ag anabledd gwybyddol
- newid y drefn yn y canllawiau statudol fel bydd yr adran ar iechyd y geg ac iechyd deintyddol yn dod o flaen yr adran ar helpu pobl yn nyddiau olaf eu hoes
- cynnwys cyfeiriad at UNCRC.

RHAN 8: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETHAU - DIOGELU

Mae Rhan 8 yn cynnwys gofynion y bwriedir iddynt sicrhau bod unigolion yn ddiogel ac wedi eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin a'u trin yn amhriodol. Mae'r rhan yma'n cynnwys gofynion ar ddefnyddio rheolaeth ac ymatal. Mae Rhan 8 hefyd yn cynnwys darpariaeth ynghylch cefnogi a galluogi unigolion i reoli eu harian eu hunain a hefyd i'w hamddiffyn rhag cael eu cam-drin yn ariannol.

Cwestiwn 7: Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch isod os gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
34 (29%)	32 (27%)	6 (5%)	1 (1%)	44 (38%)

Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch isod os gwelwch yn dda.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r cynigion, er nad oedd nifer sylweddol wedi gwneud dim sylwadau neu heb ateb y cwestiwn. Cafwyd sawl sylw cadarnhaol gydag un ymatebwr yn dweud bod y Rheoliadau'n eglur a bod y canllawiau statudol ar y Rhan hon yn fuddiol iawn.

Yn debyg i'r ymatebion a gafwyd i gwestiwn 6, roedd nifer o ymatebwyr yn cwestiynu'r defnydd o'r termau "rheolaeth ac ataliaeth" a'r canllawiau statudol, gyda sawl un yn dweud bod yr iaith wedi dyddio ac yn cynnwys ensyniadau negyddol.

Tynnodd un ymatebwr sylw at bwysigrwydd cyfeirio'n gyson at 'ymddygiad cadarnhaol' trwy gydol y Rheoliadau a'r canllawiau statudol, gydag eraill yn awgrymu mwy o bwyslais ar ymddygiad cadarnhaol ar draws y canllawiau statudol yn fwy cyffredinol.

Cafwyd nifer o sylwadau'n ymwneud â'r gofynion a'r canllawiau statudol ar helpu unigolion i reoli eu harian. Roedd un ymatebwr yn croesawu'r rheoliad hwn a dywedodd fod Rhan 8 yn ei chyfanrwydd yn fwy eglur o ran y derminoleg a ddefnyddiwyd. Fodd bynnag, mynegodd un ymatebwr bryderon y gallai problem godi i staff sy'n gweithredu mewn unrhyw ffordd i gynorthwyo unigolion, gan roi enghreifftiau o weithgarwch fel trefnu iddynt i dorri eu gwallt neu brynu colur.

Gofynnodd un ymatebwr pam fod y diffiniad o "camdriniaeth" yn y Rheoliadau yn wahanol i adran 197(1) o Ddeddf 2014, gan awgrymu y gallai'r anghysondeb hwn achos beri dryswch.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd terminoleg ‘rheolaeth ac ataliaeth’ yn destun llawer o drafod yn ystod y digwyddiadau ymgynghori ac wedyn yn yr ymatebion i’r ymgynghoriad. Fodd bynnag, nid oes barn bendant ynglŷn â pha derm a ddylid ei defnyddio yn ei le wedi dod i’r amlwg. Mae’n hanfodol i sicrhau bod unigolion yn cael eu diogelu rhag arferion amhriodol ac, felly, bydd y rheoliad yn ymwneud â defnyddio rheolaeth ac ataliaeth yn cael ei gadw. I sicrhau eglurder, fodd bynnag, bydd teitl y rheoliad hwn yn cyfeirio at ‘ddefnydd priodol o reolaeth ac ataliaeth’.

Mae’r canllawiau statudol wedi cael eu newid i bwysleisio pa mor bwysig yw hi fod darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod dull cadarnhaol yn cael ei fabwysiadu i helpu ag ymddygiad unigolyn, yn gydnaws â diwallu anghenion yr unigolyn am ofal a chymorth a llesiant unigolion eraill sy’n cael gofal a chymorth.

O ran cynorthwyo unigolion i reoli eu harian, mae’r canllawiau statudol wedi cael eu hegluro i ddatgan nad yw staff nac eraill sy’n gweithio neu sy’n gysylltiedig â’r gwasanaeth yn gweithredu fel asiant oni bai bod ganddynt yr awdurdod cyfreithiol i wneud hynny. Hefyd, mae’r canllawiau statudol wedi cael eu diwygio i adlewyrchu bwriad y rheoliad yn gliriach.

Mae’r diffiniad o ‘camdriniaeth’ wedi cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu’n fwy cywir geiriad Deddf 2014. Gan nad yw diffiniad Deddf 2014 yn cynnwys esgeulustod, mae’r Rheoliadau wedi cael eu diwygio i gyfeirio at “camdriniaeth” ac “esgeulustod”.

RHAN 9: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETH SYDD OND YN BERTHNASOL LLE DARPERIR LLETY

Mae Rhan 9 yn cynnwys gofynion fydd ond yn berthnasol i wasanaethau rheoledig lle darperir llety. Mae hyn yn cynnwys rhoi trefniadau yn eu lle fel bod gan unigolion fynediad at wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill, a bod gan blant weithiwr cyswllt dynodedig.

Cwestiwn 8: Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch hynny isod os gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
34 (29%)	31 (26%)	4 (3%)	3 (3%)	45 (38%)

Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch isod os gwelwch yn dda.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r cynigion, er nad oedd nifer sylweddol wedi gwneud unrhyw sylwadau neu heb ateb y cwestiwn.

O ran cael gafael ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill, awgrymodd un darparwr y dylai'r canllawiau statudol ddatgan pan fydd darparwyr gwasanaeth yn helpu unigolyn i gofrestru â meddyg teulu, y dylai hwn fod yn feddyg teulu o ddewis yr unigolyn.

Cafwyd adborth cadarnhaol ar y canllawiau statudol yn ymwneud â sicrhau bod unigolion yn cael eu cynorthwyo i gyrraedd apwyntiadau â gweithwyr iechyd a pherthynol proffesiynol. Yn benodol pwysleisiodd un ymatebwr pa mor bwysig oedd cael cyfeiriad at y cymorth hwn yn y canllawiau statudol. Fodd bynnag, dywedodd un ymatebwr y dylai'r gwasanaethau a restrir yn y canllawiau statudol gael eu hymestyn i gynnwys gofal lliniarol.

Cafwyd sylw ar y canllawiau statudol gan un ymatebwr ynglŷn â chadw cofnodion. Yn benodol, roedd yn awgrymu lle dywed y canllawiau statudol, "Cedwir cofnodion sy'n berthnasol i ymgynghoriadau proffesiynol (gan gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd yn sgil hyn) a chedwir gohebiaeth berthnasol i ddarparu cofnod iechyd clir ar gyfer yr unigolyn," bod hyn cymryd yn ganiataol bod unigolion yn cydsynio i rannu eu gwybodaeth berthnasol â staff sy'n eu cynorthwyo.

Yn olaf, dywedodd un ymatebwr fod y canllawiau statudol ar sicrhau bod unigolion yn cael eu galluogi i ddefnyddio cyfleusterau ychwanegol i hybu eu iechyd yn rhoi gormod o bwyslais ar weithgarwch corfforol. Roedd yn

awgrymu'n hytrach eu bod yn cael eu newid i roi pwyslais ar ddiwallu anghenion unigol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn unol ag egwyddorion gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a llais a rheolaeth, mae'r canllawiau statudol wedi cael eu hehangu i ddatgan, lle mae llety'n cael ei ddarparu, a bod unigolion yn symud i gyfeiriad newydd, bod darparwyr gwasanaeth yn eu cynorthwyo i gofrestru â meddyg teulu 'o ddewis yr unigolyn'.

Mae'r canllawiau statudol wedi cael eu hymestyn hefyd i gynnwys cyfeiriad penodol ar unrhyw 'wasanaethau gofal lliniarol' o ran mynd i apwyntiadau â gweithwyr iechyd a pherthynol proffesiynol'.

Mewn ymateb i'r pwynt a godwyd ynglŷn â chydsyniad i rannu gwybodaeth bersonol, mae'r canllawiau statudol yn egluro bod cofnodion a gohebiaeth yn cael eu cadw 'lle mae gwybodaeth o'r fath yn cael ei rhannu â'r darparwr gan yr unigolyn'.

Yn olaf, mewn ymateb i adborth bod y canllawiau statudol yn rhoi gormod o bwyslais ar weithgarwch corfforol i hybu iechyd yr unigolyn, mae'r canllawiau statudol wedi cael eu hehangu i ddweud bod unigolion yn cael help i ddefnyddio cyfleusterau i hybu iechyd a llesiant neu i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Hefyd, mae cyfeiriad at 'wasanaethau therapiwtig eraill' wedi cael ei ychwanegu i sicrhau nad yw'r pwyslais yn gyfan gwbl ar weithgarwch corfforol.

RHAN 10: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETH O RAN STAFFIO

Mae Rhan 10 yn nodi'r gofynion yng nghyswllt staffio. Mae'n cynnwys gofynion penodol ynghylch ffitrwydd unigolion sy'n gweithio yn y gwasanaeth, gan gynnwys gwirfoddolwyr a staff asiantaeth.

Cwestiwn 9: Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch hynny isod os gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
21 (18%)	40 (34%)	16 (14%)	4 (3%)	36 (31%)

Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y Rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch isod os gwelwch yn dda.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r cynigion er bod lleiafrif sylweddol yn tueddu i anghytuno. Fel y digwyddodd yn achos cwestiynau eraill yr ymgynghoriad, roedd nifer sylweddol wedi dewis peidio â chynnig dim sylwadau nac ateb y cwestiwn.

Cafodd nifer o sylwadau eu codi ynghlŷn â'r gofynion cyffredinol ar staffio a'r canllawiau statudol ynghlŷn â sicrhau bod nifer digonol o nyrsys cofrestredig ar gael i ddiwallu anghenion unigolion. Yn benodol, roedd pryderon na fyddai'r cynnig yn efelychu'r gofyniad personol yn *Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002* sy'n datgan bod yn rhaid cael nyrs gymwysedig yn gweithio gydol yr amser mewn cartrefi gofal lle mae gofal nyrsio'n cael ei ddarparu. Dywedodd nifer o ymatebwyr y gallai diddymu'r gofyniad hwn beryglu ansawdd gofal a diogelwch unigolion. Er bod rhai ymatebwyr yn cytuno â nod y polisi o gynyddu hyblygrwydd, dywedodd un ymatebwr na ddylai hyn fod yn esgus i Fyrddau lechyd i beidio â darparu na thalu am ofal nyrsio priodol.

Cafwyd llawer o adborth yn gysylltiedig â'r gofyniad ar staff i gael tystysgrif newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ar adeg eu penodiad ac yn flynyddol wedi hynny oni bai eu bod wedi'u cofrestru â Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at faich y gost ychwanegol y byddai adnewyddu blynyddol yn ei olygu i ddarparwyr a staff, ac effaith gronnsu costau gwahanol sydd ar wahân yn ymddangos fel rhai bychain. Roedd yr ymatebion hefyd yn mynegi'r farn bod y gofyniad newydd yn anghymesur ac nad oes dim gwerth ychwanegol mewn adnewyddu GDG yn flynyddol.

O ran y canllawiau sy'n gysylltiedig â chynorthwyo a datblygu staff, dywedodd un ymatebwr fod y tasgau sy'n cael eu dirprwyo i staff yn ehangach na 'nyrsio'

(fel y nodir ar hyn o bryd yn y canllawiau statudol). Awgrymodd un arall hefyd ychwanegiadau at yr adran hon, yn benodol bod staff yn cael help gyda hyfforddiant i ddefnyddio unrhyw gyfarpar arbenigol sydd eu hangen ar unigolion.

Cafwyd adborth hefyd ar y canllawiau statudol ar wybodaeth i staff. Awgrymodd un ymatebwr y dylai hyn gynnwys gofynion cyfrinachedd a diogelu data.

Cafwyd amrywiaeth o sylwadau ar y canllawiau statudol ar weithdrefnau disgyblu. Awgrymodd un ymatebwr y dylai'r darparwr gwasanaeth gael polisi a gweithdrefnau disgyblu sy'n unol â chyfraith cyflogaeth. Awgrymodd un arall y dylid ymestyn y gofyniad i hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) lle nad yw camymddwyn yn arwain at ddiswyddo, ond bod ei natur yn achos pryder. Cafwyd adborth hefyd ynglŷn â chadw cofnodion o ymchwiliadau disgyblu gydag un ymatebwr yn awgrymu y dylai'r canllawiau statudol egluro bod hyn yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol sefydledig.

Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at y ffaith bod yn rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol y mae'n ofynnol iddynt gofrestru â GCC gwblhau Fframwaith Cynefino sy'n cael ei asesu'n fewnol cyn y gallant gofrestru, a bod hynny'n gallu cymryd hyd at 6 wythnos.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bwriad y gofynion cyffredinol ar staffio a'r canllawiau statudol yw sicrhau bod niferoedd digonol o staff cymwys a phrofiadol gyda'r cymwysterau, yr hyfforddiant a'r sgiliau addas yn cael eu defnyddio i weithio yn y gwasanaeth bob amser er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth unigolion, yn unol â datganiad o ddiben y gwasanaeth. Mewn gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety, lle mae unigolion yn cael eu hasesu ag anghenion nyrsio, mae hyn yn cynnwys cael niferoedd digonol o nyrsys cofrestredig â chymwysterau a phrofiad addas i oruchwylio a diwallu anghenion yr unigolion hynny. Fodd bynnag, bwriad y polisi yw sicrhau digon o hyblygrwydd fel y bydd lefelau'r staff nyrsio'n briodol ar gyfer anghenion asesedig unigolion a bod yr anghenion hynny'n cael eu diwallu mewn modd sensitif. Mewn ymateb i adborth yr ymgynghoriad, mae'r Rheoliadau wedi cael eu diwygio fel ei bod yn ofynnol bod gwasanaeth cartref gofal lle'r aseswyd bod angen gofal nyrsio 24 awr ar unigolyn yn darparu nifer digonol o nyrsys cofrestredig â chymwysterau addas i weithio yn y gwasanaeth gydol yr amser. Mae'r canllawiau statudol wedi cael eu diwygio i adlewyrchu'r gofyniad ychwanegol hwn.

Bwriad y gofynion sy'n ymwneud ag archwiliadau GDG oedd gwella ansawdd, yn ogystal ag annog cofrestru â'r gwasanaeth diweddar. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r adborth ar y beichiau cost ychwanegol a wynebir gan ddarparwyr a staff yn sgil adnewyddu blynyddol, rydym wedi diwygio'r rheoliad hwn. Bydd y gofyniad am dystysgrif GDG newydd ar adeg penodi'n aros; fodd bynnag, bydd y gofyniad i adnewyddu'n cael ei newid i bob 3 blynedd yn hytrach na bob blwyddyn.

O ran y sylwadau am yr amser y gall ei gymryd i gwblhau'r Fframwaith Cynefino i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, mae'r rheoliad yn ymwneud ag addasrwydd wedi cael ei ddiwygio i ddatgan bod yn rhaid i unigolyn fod wedi'i

gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn 6 mis ar ôl iddynt ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bydd disgrisiwn i ymestyn y cyfnod o 6 mis mewn amgylchiadau eithriadol

O ran y sylwadau bod tasgau dirprwyedig yn ehangach na nyrsio, mae'r canllawiau statudol wedi cael eu diwygio i ddatgan y dylai staff fod yn ymwybodol o unrhyw god ymarfer a chanllawiau a gyhoeddwyd mewn cysylltiad ag ymgymryd â thasgau gofal iechyd dirprwyedig. Mae'r adran hon hefyd wedi cael ei hehangu i egluro bod staff yn cael help â hyfforddiant i ddefnyddio unrhyw gyfarpar arbenigol a fydd eu hangen ar unigolion.

O ran gwybodaeth ar gyfer staff, mae'r rhestr o faterion wedi cael ei diwygio i gynnwys 'gofynion cyfrinachedd a diogelu data' o fewn y canllawiau statudol.

Mae'r canllawiau statudol o ran gofynion yn ymwneud â gweithdrefnau disgyblaeth wedi cael eu hehangu i gynnwys bod gan y darparwr gwasanaeth bolisi a gweithdrefnau disgyblaeth yn unol â chyfraith cyflogaeth. Mae'r canllawiau statudol hefyd wedi cael eu hehangu i'w gwneud yn ofynnol bod GCC yn cael eu hysbysu lle na fydd camymddwyn yn arwain at ddiswyddio, ond bod ei natur yn achos pryder. Yn olaf, mae'r canllawiau statudol wedi cael eu hegluro i ddatgan pan fydd cofnodion o ymchwiliadau disgyblaeth yn cael eu cadw, bod hyn yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol.

RHAN 11: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETH O RAN ADEILADAU, CYFLEUSTERAU A CHYFARPAR

Mae **Rhan 11** yn trafod gofynion yng nghyswllt adeiladau, cyfleusterau a chyfarpar. Mae rhai o'r gofynion yn berthnasol dim ond lle darperir llety ond mae eraill yn berthnasol ym mhob achos.

Cwestiwn 10: Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch os gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
21 (18%)	33 (28%)	14 (12%)	10 (8%)	40 (34%)

Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch os gwelwch yn dda.

Crynodeb o'r ymatebion

Er bod llawer o ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r cynigion, cafwyd adborth manwl ar nifer o faterion gwahanol.

O ran y gofynion yng nghyswllt adeiladau gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety, cyfeiriodd sawl ymatebwr at yr angen am gamerâu cylch cyfyng lle dywedir fod angen monitro unigolion yn ofalus. Gofynnwyd am eglurhad yn y canllawiau statudol i gynnwys sefyllfaedd o'r fath.

Cafwyd adborth hefyd mewn cysylltiad â'r gofyniad i ystafelloedd gwely fod â ffenestri ar lefel sy'n eu galluogi i edrych allan. Gofynnodd un ymatebwr sut fyddai'r gofyniad hwn yn gweithio mewn adeiladau lle mae ffenestri Velux wedi eu gosod.

Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at systemau gwresogi mewn adeiladau. Roedd hyn yn ymwneud ag ymholiadau am yr hyn oedd yn dderbyniol o safbwynt rheolaeth unigolion dros systemau gwresogi, yn ogystal ag awgrym i gynnwys darpariaeth i unigolion gael rheolaeth dros osodiadau goleuo ac awyru yn ogystal â gwresogi.

Maes yr oedd nifer o ymatebwyr yn ei bwysleisio oedd y gofyniad i adeiladau fod â llety cysgu addas ar gyfer staff. Dywedodd ymatebwyr y dylai'r gofyniad hwn fod yn berthnasol yn unig lle'r oedd angen i staff gysgu yn yr adeilad fel rhan o rôl benodol.

Maes arall a ysgogodd nifer o ymatebion oedd mewn cysylltiad â'r cyfyngiadau ar ystafelloedd a rennir ar gyfer oedolion. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai hyn yn effeithio ar hawl yr unigolyn i ddewis ac y byddai'n amharu i raddau helaeth iawn ar gyfle gwirioneddol i gael cwmnïaeth ymhlith unigolion sy'n gaeth i'w gwely ac a fyddai ar eu pen eu hunain fel arall. Dywedodd

ymatebwyr hefyd y byddai'n effeithio ar hyfywedd cartrefi gofal – yn enwedig cartrefi gofal llai mewn ardaloedd gwledig – a gallai nifer yr ystafelloedd a rennir ddiiflannu'n gyfan gwbl. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn teimlo nad yw ystafelloedd a rennir yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael ei roi â digon o urddas a pharch i unigolion.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r canllawiau statudol wedi eu diwygio i'w gwneud yn glir nad yw preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd unigolion yn cael ei fygwth oni bai bod hynny'n cyd-fynd â'u cynllun personol.

O ran uchder ffenestri, mae'r canllawiau statudol wedi eu diwygio i sicrhau bod goleuo'n cydymffurfio ag unrhyw ofynion iechyd a diogelwch perthnasol, ac anghenion defnyddwyr gwasanaeth unigol. Mae'r canllawiau statudol wedi cael eu hehangu hefyd i ddweud, pan yn berthnasol, bod systemau awyru a goleuo ychwanegol yn cael eu gosod i ddiwallu anghenion unigol, yn unol â safonau cenedlaethol ar gyfer mynediad cynhwysol.

Ar ôl pwysu a mesur, mae'n amlwg na fydd angen llety cysgu na chyfleusterau newid ar gyfer staff ym mhob adeilad. Mae'r rheoliad hwn felly wedi cael ei ddiwygio i egluro bod yn rhaid i adeiladau gael chyfleusterau storio addas at ddefnydd staff ac, os yn briodol, llety cysgu a chyfleusterau newid addas.

Rydym yn cydnabod ystod yr adborth yn gysylltiedig ag ystafelloedd a rennir ac rydym yn ymwybodol o'r angen i gael cydbwysedd rhwng hyblygrwydd a dewis a hybu urddas a pharch yr unigolyn. Felly, yn sgil yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, mae'r maen prawf i oedolion fod â pherthynas deuluol eisoes wedi cael ei ddiddymu. Fodd bynnag, er mwyn rheoli'r defnydd o ystafelloedd a rennir, dywed y Rheoliadau'n awr na ddylai nifer yr oedolion mewn ystafelloedd a rennir fod yn fwy na 15% o gyfanswm yr oedolion sy'n cael eu lletya gan y gwasanaeth. Bydd y gofyniad hwn yn gymwys yn achos darpariaethau newydd, a bydd yn cael ei gyflwyno'n raddol yn achos llety presennol.

**RHAN 12: GOFYNION YCHWANEGOL AR DDARPARWYR
GWASANAETH O RAN ADEILADAU – LLETY NEWYDD**

Mae Rhan 12 yn ymwneud â gofynion ychwanegol lle mae'r safle'n cynnwys adeilad newydd, estyniad, neu adeilad gyda chofrestriad blaenorol ond nad yw wedi'i feddiannu ar yr adeg pan fo'r darparwr gwasanaeth yn gwneud cais i gofrestru o dan y gyfraith newydd.

Cwestiwn 11: Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? A oes unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen?

Byddem yn croesawu pe baech yn rhoi sylw penodol i:

- a) faint o hyblygrwydd a fyddai'n ddymunol gyda chyfleusterau en-suite, ac a ddylent fod yn ofynnol ar gyfer pob ystafell neu ddim ond canran o ystafelloedd;
- b) a ddylid cael dull mwy penodol gyda chyfleusterau en-suite yn y stoc gartrefi sydd eisoes wedi cofrestru ac wedi eu meddiannu, ac os felly, sut i'w gyflwyno dros amser;
- c) a yw'r lleiafswm meintiau ystafell sydd mewn golwg yn ddigonol;
- d) a ddylid cymhwyso'r gofynion eraill yn Rhan 12 i bob gwasanaeth rheoledig sy'n darparu llety, gan gynnwys stoc sydd wedi'u gofrestru a'i feddiannu eisoes ac os felly, sut ellid cyflwyno hyn dros amser.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
23 (20%)	26 (22%)	7 (6%)	12 (10%)	49 (42%)

Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch os gwelwch yn dda.

Crynodeb o'r ymatebion

Ar y cyfan, roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r cynigion yn y Rhan hon. Fodd bynnag, cafwyd adborth manwl ar agweddau penodol o'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol.

Cafwyd sylwadau gan nifer o ymatebwyr ar y tri chategori o adeilad lle mae gofynion y Rhan hon yn gymwys. Yn benodol, cafwyd nifer o sylwadau am Gategori C, sy'n disgrifio adeiladau a oedd wedi'u cofrestru'n flaenorol ond sy'n wag ar hyn o bryd. Dywedodd sawl ymatebwr na ddylai adeiladau Gategori C gael eu cynnwys o fewn cwmpas Rhan 12, gan y gallai hyn gael effaith negyddol ar y farchnad cartrefi gofal, a fyddai'n gwneud peth o'r stoc bresennol yn ddarfodedig.

Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid eraill hefyd at yr effaith negyddol ar y farchnad, o ganlyniad i ofynion Rhan 12 yn fwy cyffredinol. Roedd ychydig o ymatebwyr yn teimlo y gellid egluro mwy ar y disgrifiad o Gategori C, gan ofyn a fyddai'r

gofyniad yn gymwys yn achos cartrefi gofal sydd wedi'u gwagio dros dro i wneud gwaith adnewyddu.

Cafwyd llawer o adborth i'r gofyniad am ystafelloedd ymolchi en-suite. Er bod rhai ymatebwyr yn dweud y dylai cyfleusterau en-suite gael eu cynnwys mewn adeiladau newydd neu estyniadau i adeiladau presennol, roedd eraill yn teimlo y dylid cymryd ymagwedd fwy pragmataidd, hyblyg, gan ddweud bod gofal o safon uchel yn bwysicach na sicrhau cyfleusterau en-suite ym mhob ystafell. Hefyd, dywedodd nifer o ymatebwyr y gallai gosod cyfleusterau en-suite mewn adeiladau hŷn fod yn anodd a chostus, gan fynegi pryderon unwaith eto ynglŷn â hyfywedd rhai adeiladau pe byddai gofynion mwy rhagnodol yn cael eu gosod.

O ran darpariaeth en-suite mewn ystafelloedd gwely plant, dywedodd rhai ymatebwyr na fyddai cyfleusterau en-suite o reidrwydd yn briodol mewn gwasanaethau llai fel gwasanaethau cartrefi gofal ar gyfer plant gyda dim ond 2 neu 3 o unigolion, lle mai'r nod yw creu awyrgylch cartref teuluol i'r graddau posibl. Roedd eraill yn teimlo y byddai'n gost ddiangen.

Cafwyd ystod o adborth hefyd ar y lleiafswm maint a gynigir ar gyfer ystafelloedd. Er bod un ymatebwr wedi dweud bod y lleiafswm maint a gynigir ar gyfer ystafelloedd yn ddigonol (ac na ddylent fod yn ddim llai), dywedodd eraill, yn ôl eu profiad hwy, bod yn well gan rai plant ystafelloedd llai. Fel yn achos cyfleusterau en-suite, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at effaith bosibl cyflwyno lleiafswm ar gyfer maint ystafelloedd ar yr effaith bosibl ar adeiladau Categori C.

Cafwyd peth adborth hefyd gan ymatebwyr ar y Rheoliad a'r canllawiau statudol ar lifftiau i deithwyr. Gofynnodd rai ymatebwyr am hyblygrwydd ychwanegol ar y gofyniad i ddarparu lifft i deithwyr, gan ddweud mai dim ond pobl â phroblemau symudedd na fyddai wedi'u lletya ar y llawr isaf fyddai angen lifft. Hefyd, awgrymodd un ymatebwr y dylai'r canllawiau statudol gynnwys darpariaeth ar gyfer rhybuddion sain ac arwyddion braille.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd ynglŷn ag effaith bosibl gweithredu gofynion 12 yn achos adeiladau Categori C ar y farchnad. Fodd bynnag, y bwriad yw parhau i godi safonau pob adeilad yng Nghymru yn hytrach na chyfyngu gwelliannau i adeiladau newydd ac estyniadau. Er hynny, ni fydd cartrefi gofal sydd wedi'u cofrestru a'u meddiannu ar hyn o bryd yn atebol i Ran 12, gan sicrhau ymagwedd gymesur tuag at gyflwyno'r safonau hyn. Mae'r diffiniad o adeilad Categori C wedi cael ei ddiwygio i roi mwy o eglurder. Nid ydym yn bwriadu i'r gofynion fod yn weithredol mewn sefyllfaoedd lle mae darparwyr wedi gwagio'r adeilad dros dro i wneud gwaith adnewyddu. Bydd y gofynion hyn yn weithredol pan fydd adeilad gwag a arferai gael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig yn cael ei werthu i ddarparwr newydd.

Bydd y gofyniad am ystafelloedd gwely en-suite yn weithredol yn achos y tri chategori o adeilad (Categori A, Categori B a Chategori C) i sicrhau safonau cyson ym mhob adeilad. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen i sicrhau nad yw'r gofynion yn cael effaith andwyol ar awyrgylch gartrefol cartrefi llai fel rhai ar gyfer plant ac oedolion iau ag anabledau dysgu. Gall y

gwasanaethau hyn gael eu darparu o dai 'teuluol' mewn ardaloedd preswyl ac efallai na fydd gofynion fel ystafelloedd ymolchi en-suite yn ymarferol nac yn gymesur. Mae'r Rheoliadau felly wedi cael eu diwygio fel na fydd gofynion Rhan 12, gan gynnwys cyfleusterau en-suite, yn weithredol yn achos gwasanaethau â phedwar neu lai o oedolion.

Bydd y gofynion ar gyfer lleiafswm maint ystafelloedd yn cael eu cadw ym mhob un o'r tri chategori o adeilad i sicrhau ymagwedd a safonau cyson o fewn y sector. Fodd bynnag, ni fydd y gofyniad hwn hefyd yn cael ei weithredu yn achos gwasanaethau â phedwar neu lai o unigolion.

Bydd y gofyniad am lifft teithwyr lle mae'r llety ar fwy nag un llawr a lle mae hyn yn gydnaws â datganiad o ddiben y gwasanaeth yn cael ei gadw ar draws y tri chategori o adeilad ond ni fydd yn weithredol mewn gwasanaethau â phedwar neu lai o unigolion. Mae'r canllawiau statudol wedi cael eu diwygio mewn ymateb i adborth i gynnwys cyfeiriad at lifftiau teithwyr gan gynnwys rhybuddion sain ac arwyddion priodol.

Er hynny, bydd gofyniad cyffredinol o hyd i adeiladau fod yn addas ar gyfer y gwasanaeth gan dalu sylw i'r Datganiad o Ddiben. Dylai hyn sicrhau bod pob unigolyn yn cael eu lletya mewn adeilad sy'n addas ar gyfer eu hanghenion unigol.

RHAN 13: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETH O RAN ADEILADAU, CYFLEUSTERAU A CHYFARPAR

Mae Rhan 13 yn nodi'r gofynion ar gyfer cyflenwadau, hylendid, iechyd a diogelwch a meddyginiaeth.

Cwestiwn 12: Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch os gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
45 (38%)	21 (18%)	6 (5%)	2 (2%)	43 (37%)

Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch os gwelwch yn dda.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r gofynion yn y Rhan hon. Fel yn achos cwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad nid oedd nifer sylweddol wedi gwneud unrhyw sylwadau neu nid oeddent wedi ateb y cwestiwn. Cafwyd adborth cadarnhaol gan un ymatebwr a ddywedodd fod y rheoliadau yn y Rhan hon wedi'u cyflwyno'n eglur gydag un arall yn datgan fod y darpariaethau'n rhai synhwyrol.

Dywedodd un ymatebwr y dylai'r canllawiau statudol yn gysylltiedig â'r gofynion yn ymwneud â chyflenwadau gynnwys bod darparwyr yn sicrhau cyflenwadau ar lefel ddigonol i sicrhau bod gwasanaeth o safon uchel yn cael ei ddarparu.

O ran y gofynion yn ymwneud â meddyginiaethau, cyfeiriodd sawl ymatebwr at fater storio meddyginiaethau. Dywedodd un ymatebwr y dylai'r canllawiau statudol gynnwys cyfeiriad at storio cyffuriau a reolir, gydag un arall yn awgrymu cynnwys sefyllfaoedd lle mae cudd feddyginiaethau'n cael ei darparu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r canllawiau statudol wedi'u diwygio i ddweud bod y darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod lefel y cyflenwadau sydd ar gael yn ddigonol i ddiwallu nifer ac anghenion yr unigolion er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu canlyniadau personol.

Hefyd, ymhelaethwyd ar y canllawiau statudol i gyfeirio at feddyginiaeth a reolir a meddyginiaethau nad ydynt yn cael eu rheoli a dywed yn awr bod yn rhaid storio a gweinyddu meddyginiaethau'n unol â'r canllawiau cenedlaethol cyfredol. Yn olaf, mewn ymateb i'r cais i gynnwys cyfeiriad at gudd feddyginiaethau ehangwyd ar y canllawiau statudol i ddatgan pan fod cudd feddyginiaethau'n cael eu darparu, eu bod yn cael eu gweinyddu'n unol â chanllawiau ymarfer gorau cyfredol.

RHAN 14: GOFYNION ERAILL AR DDARPARWYR GWASANAETH

Mae Rhan 14 yn cynnwys amrywiol ofynion ar ddarparwyr gwasanaeth, gan gynnwys gofynion ar gyfer cadw cofnodion a gwneud hysbysiadau i'r rheoleiddiwr gwasanaeth a chyrrff eraill. Mae Atodlen 2 yn nodi pa gofnodion sydd angen eu cadw ac mae Atodlen 3 yn nodi pa hysbysiadau penodol sydd i'w gwneud. Mae'r rhan yma hefyd yn cynnwys gofynion ar y darparwr gwasanaeth i fod â pholisi cwynion a pholisi chwythu'r chwiban yn eu lle.

Cwestiwn 13: Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch os gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
38 (31%)	46 (37%)	1 (1%)	2 (2%)	37 (30%)

Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r gofynion yn y Rhan hon. Fel yn achos cwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad nid oedd nifer sylweddol wedi gwneud unrhyw sylwadau neu nid oeddent wedi ateb y cwestiwn.

Cafwyd adborth positif mewn ymateb i'r gofynion ynglŷn â chofnodion gydag un ymatebwr yn dweud bod y gofynion yn datgan yn eglur yr angen i'r darparwr gadw cofnodion cywir, cyfoes a diogel yn ymwneud â'r gwasanaeth. Cafwyd adborth positif gan yr ymatebwr hwn hefyd ar y canllawiau statudol, gan ddweud eu bod yn eglur o ran y polisi a'r gweithdrefnau ar reoli cofnodion.

Gofynnodd un ymatebwr am eglurder ynglŷn â storio cofnodion plant. Yn benodol, awgrymwyd ganddynt ei bod yn ymddangos bod nifer y blynyddoedd ar gyfer cadw cofnodion oedolion a phlant yn amrywio rhwng deddfwriaeth diogelu data mynediad gwrthrych. Gofynnodd ymatebwr arall am eglurhad a ddylai asesiadau arbenigol a phrofion galluedd meddyliol fod yn rhan o gofnodion cleientiaid.

O ran Rheoliad 59 (Gwrthdaro buddiannau (gan gynnwys gwaharddiadau)), awgrymodd sawl ymatebwr fod y canllawiau statudol yn ymwneud â gwrthdaro buddiannau yn ddryslyd ac roedd yn ymddangos nad oeddent yn cynnwys unigolion sydd wedi'u contractio i ddarparu gwasanaethau i ddarparwr gwasanaeth cartref gofal fel nyrsys cofrestredig ac a fyddai felly'n cael cyflog.

Awgrymodd un ymatebwr y dylai'r gofyniad yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau cwyno gynnwys adroddiad ysgrifenedig ar ddiwedd ymchwiliad i gŵyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r Rheoliadau wedi cael eu diwygio i roi eglurhad ynglŷn â chyfnodau cadw cofnodion ar gyfer plant ac oedolion. Mae'r cyfnodau cadw'n cyd-fynd â'r gofynion cyfredol o dan reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf Safonau Gofal ac maent yn cydymffurfio â phumed egwyddor Deddf Diogelu Data 1998 sy'n datgan na ddylai data personol gael ei gadw'n hwy na'r angen i'r diben y cafodd ei brosesu ar ei gyfer.

Mae'r Rheoliadau wedi cael eu diwygio i ddatgan mai budd ariannol yw budd ariannol sydd ym mherchnogaeth gwasanaeth cartref gofal ac nad yw'n weithredol yn achos y rhai lle mae ei hunig fudd mewn darparu gwasanaethau wedi'u contractio i'r darparwr.

Mae'r canllawiau statudol sy'n ymwneud â chwynion wedi cael eu hehangu i wneud darpariaeth ar gyfer adroddiad ysgrifenedig a roddir i achwynydd sy'n nodi canlyniad cwyn ac unrhyw gamau a gymerwyd. Mae'r adran hon wedi cael ei hehangu hefyd i gynnwys cyfeiriad at sut i uwchgyfeirio pryder / cwyn i gomisiynydd neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, o fewn polisi cwyno darparwr.

RHAN 15: GOFYNION AR UNIGOLION CYFRIFOL I SICRHAU BOD Y GWASANAETH YN CAEL EI REOLI'N EFFEITHIOL

Mae Rhan 15 yn cynnwys gofynion o ran dyletswydd gyffredinol yr unigolyn cyfrifol i oruchwyllo sut y caiff y gwasanaeth ei reoli, a'r dyletswyddau penodol o ran penodi person addas i reoli'r gwasanaeth, rhoi trefniadau yn eu lle i reoli'r gwasanaeth pan fydd y rheolwr yn absennol, ac ymweld â'r lleoedd hynny lle mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu. Fel y nodir uchod mae ganddo ef neu hi ddyletswydd i barhau i fod yn gyffredinol atebol a chyfrifol am y gwasanaeth.

Cwestiwn 14: Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
22 (19%)	27 (23%)	17 (15%)	10 (9%)	41 (35%)

Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd chwarter yr ymatebion yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno â'r gofynion yn y Rhan hon.

Roedd sawl ymateb yn canolbwyntio ar gymhwysedd i fod yn unigolyn cyfrifol. Mae hyn wedi'i nodi yn adran 21 o Ddeddf 2016 ac nid yw'n fater i'r Rheoliadau hyn. Roedd nifer o ymatebion yn mynegi pryderon ynglŷn â sefyllfa ymddiriedolwyr gan ofyn am eglurhad pellach.

Roedd nifer o ymatebwyr yn anghytuno â pha mor aml yr oedd y gofyniad yn datgan y dylai'r unigolyn cyfrifol ymweld â phobl ym mhob un o'r manau lle maent yn unigolyn cyfrifol dynodedig. Awgrymwyd amserlenni amgen.

Gofynnodd rhai ymatebion am eglurhad ar ba ddyletswyddau a ellid eu dirprwyo.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn bwriadu cyhoeddi eglurhad ar y dehongliad o adran 21 o Ddeddf 2016. Bydd hwn wedi'i gynnwys yng Nghanllawiau Ailgofrestru'r rheolydd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGGCC.

Rydym wedi ystyried ymhellach ac yn cydnabod y gallai'r gofyniad am ymweliad misol gan yr unigolyn cyfrifol fod yn anghymesur ac y gallai ymweliadau mor aml gael y canlyniad anfwriadol o aberthu ansawdd ymweliadau o'r fath a'u gwneud yn ddim mwy nag ymarferion 'ticio blychau'. Nid dyna yw'r bwriad. Mae'r Rheoliadau wedi cael eu diwygio fel y gall yr ymweliadau hyn ddigwydd

bob 3 mis. Rhaid i'r ymweliadau gael eu cynnal yn bersonol gan yr unigolyn cyfrifol dynodedig.

Mae'r Rheoliadau'n nodi'r amgylchiadau lle gall darparwr unigol (sy'n unigolyn cyfrifol ar gyfer y gwasanaeth) fod yn rheolwr sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y gwasanaeth hwnnw. Y bwriad yma yw eithrio darparwyr bychain rhag gorfod cyflogi rheolwr ar wahân. Rydym yn ymwybodol bod gan ddarparwyr bychain eraill sydd wedi "ymgorffori" un neu ddau gyfarwyddwr yn unig lle mae'r unigolyn cyfrifol hefyd yn gweithredu fel y rheolwr cofrestredig. Rydym felly wedi cymryd y cyfle hwn i ymestyn yr eithriad i gynnwys darparwyr corfforedig lle mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn dim mwy na 2 leoliad neu, yn achos gwasanaeth cymorth cartref, mewn dim mwy na dwy ardal.

Nid ydym yn cynnig gwneud darpariaeth yn y Rheoliadau i'r dyletswyddau a osodwyd ar unigolion cyfrifol i gael eu dirprwyo'n ffurfiol i unigolyn arall. Fodd bynnag, mewn rhai achosion roedd y Rheoliadau wedi eu geirio yn y fath ffordd fel mai natur y ddyletswydd a osodwyd ar yr unigolyn cyfrifol oedd "gwneud trefniadau addas" neu "roi trefniadau ar waith". Bwriad hyn oedd galluogi'r unigolyn cyfrifol i ddirprwyo rhai tasgau i eraill ond i gadw'r prif atebolrwydd a chyfrifoldeb. Mae'r Rheoliadau wedi cael eu diwygio fel bod y geiriau "rhoi trefniadau eraill ar waith" wedi cael eu defnyddio mewn ffordd gyson, i sicrhau'r eglurder angenrheidiol. Fel y nodwyd uchod mae gofyniad ar yr unigolyn cyfrifol dynodedig i ymweld yn bersonol â'r gwasanaeth.

Mae'r canllawiau statudol wedi cael eu diwygio i roi mwy o eglurder i rôl yr unigolyn cyfrifol ym mhenodiad y rheolwr.

RHAN 16: GOFYNION UNIGOLION CYFRIFOL I SICRHAU BOD Y GWASANAETH YN CAEL EI ORUCHWYLIO'N EFFEITHIOL

Mae Rhan 16 yn cynnwys gofynion ar unigolion cyfrifol i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol. Drwy roi'r gofynion hyn ar yr unigolyn cyfrifol, mae'r rheoliadau yn y Rhan yma'n sicrhau bod person ar lefel briodol o uchel yn y sefydliad yn atebol am ansawdd y gwasanaeth ac am sicrhau ei fod yn cydymffurfio. Mae'n ofynnol i'r unigolyn cyfrifol wneud adroddiadau i'r darparwr gwasanaeth ar ba mor ddigonol yw'r adnoddau, ac ar faterion eraill. Mae hefyd yn ofynnol iddynt wneud trefniadau i ymgysylltu ag unigolion ac eraill fel bod y darparwr gwasanaeth yn gallu ystyried eu barn am ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir.

Cwestiwn 15: Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch os gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
30 (25%)	28 (24%)	9 (8%)	5 (4%)	46 (39%)

Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch os gwelwch yn dda.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r gofynion a gynigiwyd neu nid oeddent wedi gwneud sylw. Roedd lleiafrif bychan o ymatebion yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno.

Cafwyd nifer o sylwadau cefnogol. Nododd ymatebwyr fod atebolrwydd ychwanegol ar gyfer unigolion cyfrifol yn gam positif ymlaen, gan groesawu mwy o bwyslais ar lywodraethu a bod y gofynion yn gymesur. Dywedodd ymateb arall eu bod yn ddyletswyddau y gall unigolion cyfrifol eu cyflawni'n awr ac yn y dyfodol. Bydd y gofyniad i adrodd ar lefel adnoddau'n sicrhau bod unigolion cyfrifol yn ymgysylltu'n llawn a bydd yn sicrhau bod problemau'n cael eu canfod yn gynnar.

Cafwyd sylwadau amrywiol ar y gofynion ynglŷn â pha mor aml ddylid adrodd. Dywedodd un ymatebwr fod adroddiadau chwarterol yn 'arfer da' gyda rhai ymatebwyr yn dweud eu bod yn 'rhy feichus' ac 'yn drwm ar adnoddau'.

Fel yn achos gofynion eraill roedd rhai ymatebion yn gofyn am eglurder ynglŷn â pha ddyletswyddau a ellir eu dirprwyo.

Cyfeiriodd nifer o ymatebion at y canllawiau statudol sy'n gysylltiedig â'r gofyniad ar 'ymgysylltu ag unigolion ac eraill'.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi ystyried yr ymatebion ond nid ydym yn cytuno bod achos i newid amllder adrodd.

Nid ydym yn bwriadu gwneud darpariaeth yn y Rheoliadau i'r dyletswyddau a osodir ar unigolion cyfrifol i gael eu dirprwyo'n ffurfiol i unigolyn arall. Fodd bynnag, mewn rhai achosion roedd y rheoliadau wedi eu geirio yn y fath ffordd fel mai natur y ddyletswydd a osodwyd ar yr unigolyn cyfrifol oedd i "wneud trefniadau addas" neu "i roi trefniadau ar waith". Bwriad hyn oedd galluogi'r unigolyn cyfrifol i ddirprwyo rhai tasgau i eraill ond i gadw'r prif atebolrwydd a chyfrifoldeb. Mae'r Rheoliadau wedi cael ei diwygio fel bod y geiriau "rhoi trefniadau addas ar waith" wedi cael eu defnyddio'n gyson i roi'r eglurder angenrheidiol.

Mae'r canllawiau statudol wedi cael ei diwygio mewn ymateb i sylwadau am yr angen i'r ymgysylltiad fod yn hygyrch a chynhwysol ac i sicrhau bod dulliau'n ystyried anghenion cyfathrebu penodol.

RHAN 17: GOFYNION AR UNIGOLION CYFRIFOL I SICRHAU BOD Y GWASANAETH YN CYDYMFFURFIO

Mae Rhan 17 yn nodi'r gofynion ar yr unigolyn cyfrifol i sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion eraill, gan gynnwys i hysbysu ynghylch digwyddiadau a chwynion ac i gadw cofnodion. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol hefyd roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaeth yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.

Cwestiwn 16: Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch os gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
30 (25%)	28 (24%)	9 (8%)	5 (4%)	46 (39%)

Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y Rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r gofynion. Roedd 6% yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno.

Roedd y sylwadau'n cynnwys 'eglwyr iawn - mae'n beth da i egluro'r atebolrwydd sydd ynghlwm wrth Unigolyn Cyfrifol' a bod y gofynion yn 'gymesur'

Awgrymodd rhai ymatebion y byddai rôl yr unigolyn cyfrifol yn tanseilio rôl rheolwr y gwasanaeth.

Fel o'r blaen roedd rhai ymatebion yn gofyn am eglurder ynglŷn â pha ddyletswyddau a ellid eu dirprwyo.

Roedd sawl ymateb yn anghytuno â'r cyfeiriad yn y canllawiau statudol at ddiweddarau polisiau a gweithdrefnau o leiaf bob blwyddyn. Awgrymodd un ymateb y gellid dehongli'r canllawiau statudol sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd i sicrhau bod systemau ar waith i gadw cofnodion fel gofyniad i gael cofnodion electronig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid yw rôl yr unigolyn cyfrifol yn cymryd lle nac yn tanseilio rôl rheolwr y gwasanaeth. Bydd y rheolwr yn parhau'n gyfrifol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd.

Nid ydym yn bwriadu gwneud darpariaeth yn y Rheoliadau i'r dyletswyddau a osodir ar unigolion cyfrifol i gael eu dirprwyo'n ffurfiol i unigolyn arall. Fodd bynnag, mewn rhai achosion roedd y Rheoliadau wedi eu geirio mewn ffordd fel mai natur y ddyletswydd a osodir gan yr unigolyn cyfrifol oedd i "wneud

trefniadau addas” neu i “roi trefniadau ar waith”. Bwriad hyn oedd galluogi'r unigolyn cyfrifol i ddirprwyo rhai tasgau i eraill ond i gadw prif atebolrwydd a chyfrifoldeb. Mae'r Rheoliadau wedi cael eu diwygio fel bod y geiriau “roi trefniadau addas ar waith” wedi cael eu defnyddio'n gyson i sicrhau'r eglurder angenrheidiol.

Mae'r adran o'r canllawiau statudol sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol wedi cael ei diwygio. Mae'r canllawiau statudol sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd i sicrhau bod systemau ar waith i gadw cofnodion wedi cael eu diwygio i sicrhau eglurder yn yr amgylchiadau lle mae cofnodion yn cael eu storio'n electronig.

RHAN 18: GOFYNION AR UNIGOLION CYFRIFOL I FONITRO, ADOLYGU A GWELLA ANSAWDD Y GWASANAETH RHEOLEDIG

Mae Rhan 18 yn nodi'r gofynion ar yr unigolyn cyfrifol i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir, gan gynnwys gwneud adroddiad i'r darparwr gwasanaeth. Bydd yr adroddiad hwn yn ffurfio rhan o ffurflen flynyddol y darparwr.

Cwestiwn 17: Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch os gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
37 (31%)	26 (22%)	8 (7%)	6 (5%)	41 (35%)

Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch os gwelwch yn dda.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r gofynion. Roedd canran fechan yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno.

Fel o'r blaen roedd rhai ymatebion yn gofyn am eglurder ynglŷn â pha ddyletswyddau a ellid eu dirprwyo.

Roedd un ymatebwr yn rhoi croeso cynnes i'r gofyniad am adolygiad o ansawdd gofal bob 6 mis ond roedd rhai'n teimlo bod 6 mis yn rhy aml.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid ydym yn bwriadu gwneud darpariaeth yn y Rheoliadau i'r dyletswyddau a osodir ar unigolion cyfrifol i gael eu dirprwyo'n ffurfiol i unigolyn arall. Fodd bynnag, mewn rhai achosion roedd y Rheoliadau wedi eu geirio mewn ffordd fel mai natur y ddyletswydd a osodir gan yr unigolyn cyfrifol oedd i "wneud trefniadau addas" neu i "roi trefniadau ar waith". Bwriad hyn oedd galluogi'r unigolyn cyfrifol i ddirprwyo rhai tasgau i eraill ond i gadw prif atebolrwydd a chyfrifoldeb. Mae'r Rheoliadau wedi cael eu diwygio fel bod y geiriau "roi trefniadau addas ar waith" wedi cael eu defnyddio'n gyson i sicrhau'r eglurder angenrheidiol.

Rydym wedi ystyried yr ymatebion a gafwyd yn gysylltiedig â'r adolygiad o ansawdd gofal ond nid ydym yn cytuno bod achos i newid eu hamlder.

RHAN 19: GOFYNION ERAILL AR UNIGOLION CYFRIFOL

Mae **Rhan 19** yn nodi gofynion eraill ar yr unigolyn cyfrifol, gan gynnwys gofynion i wneud hysbysiadau penodol i'r rheoleiddiwr gwasanaeth. Rhestrir y rhain yn Atodlen 4.

Cwestiwn 18: Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch os gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
39 (33%)	26 (22%)	3 (3%)	4 (3%)	45 (38%)

Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r gofynion. Roedd canran fechan yn anghytuno neu'n tueddu i anghytuno.

Ni chafwyd dim sylwadau o bwys a fyddai'n cyfiawnhau newid y gofynion.

Cafwyd sylwadau gan sawl ymatebwr ar y canllawiau statudol. Er enghraifft, dylid cael canllawiau'n gysylltiedig â'r gofyniad ar Hysbysiadau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen dim diwygiadau i'r Rheoliadau.

Gwnaethpwyd rhai diwygiadau i'r canllawiau statudol i roi mwy o eglurder mewn cysylltiad â Dyletswydd Gonestrwydd a Hysbysiadau.

RHAN 20: TROSEDDAU

Gwneir y rheoliadau yn y rhan yma o dan y pwerau yn adran 45 a 46 y Ddeddf. Maent yn darparu, lle mae'r darparwr gwasanaeth o dan adran 45 a'r unigolyn cyfrifol o dan adran 46, yn methu â chydymffurfio â'r gofynion a ragnodir yn y rheoliadau, bod hynny yn drosedd. Mae amod pellach sy'n berthnasol mewn achosion o fethu â chydymffurfio â gofynion penodol. Yn yr achosion hyn, mae'r rheoliad yn darparu bod hyn ond yn drosedd os yw'r methiant i gydymffurfio'n arwain at unigolion yn dod i gysylltiad â niwed y gellid bod wedi'i osgoi, neu risg sylweddol o niwed o'r fath, neu eu bod wedi colli arian neu eiddo o ganlyniad i ddwyn, camddefnyddio neu gamarfer

Cwestiwn 19: Ydy'r dull a gymerir gyda throsteddau'n ddigonol a chymesur? Os nad yw, eglurwch os gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
34 (29%)	21 (18%)	8 (7%)	5 (4%)	49 (42%)

Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y Rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.

Crynodeb o'r ymatebion

Dewisodd y rhan fwyaf o ymatebwyr i beidio â gwneud sylw ar y Rhan hon. O'r rhai a ymatebodd, roedd y rhan fwyaf wedi canolbwyntio ar gyhoeddi hysbysiadau cosb. Mae'r sylwadau hyn wedi'u crynhoi o dan gwestiwn 22 yn y ddogfen hon.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Gan fod y rhan fwyaf o'r sylwadau ar yr adran hon yn ymwneud â hysbysiadau cosb, rhoddwyd sylw iddynt o dan Gwestiwn 22.

RHAN 21: DARPARWYR GWASANAETH SYDD WEDI CAEL EU DIDDYMU ETC NEU SYDD WEDI MARW

Mae Rhan 21 yn nodi gofynion penodol sy'n berthnasol pan fydd y darparwr gwasanaeth wedi cael ei ddiddymu neu pan fydd darparwr gwasanaeth sy'n unigolyn wedi marw. Yn yr amgylchiadau hyn mae'r rheoliadau'n rhoi dyletswyddau hysbysu penodol ar y person penodedig (yn achos ansolfedd) neu'r cynrychiolwyr personol (yn achos marwolaeth darparwr gwasanaeth sy'n unigolyn).

Cwestiwn 20: Ydy'r gofynion a roddir ar bersonau penodedig a chynrychiolwyr personol yn rhesymol? Os nad ydynt, eglurwch os gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
48 (41%)	14 (12%)	1 (1%)	1 (1%)	53 (45%)

Crynodeb o'r ymatebion

Nid oedd nifer fawr o ymatebwyr wedi ymateb i'r cwestiwn hwn.

O'r rhai a ymatebodd roedd cefnogaeth gyffredinol i'r gofynion hyn, gyda'r mwyafrif yn dweud eu bod yn cytuno neu'n tueddu i gytuno. Ar y cyfan y farn oedd bod y rheoliad yn eglur a synhwyrol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Ni wnaethpwyd dim diwygiadau i'r rheoliad yn y rhan hon.

RHAN 22: RHEOLIADAU O DAN ADRAN 21(5) – DYNODI UNIGOLYN CYFRIFOL GAN WEINIDOGION CYMRU

Mae Rhan 22 yn nodi o dan ba amgylchiadau y gall Gweinidogion Cymru (yn hytrach na'r darparwr gwasanaeth) ddynodi unigolyn fel unigolyn cyfrifol, er na fyddai'r gofynion cymhwysedd o dan adran 21(2) wedi cael eu cwrdd ar gyfer yr unigolyn. Gwneir y rheoliad hwn o dan adran 21(5) y Ddeddf

Cwestiwn 21: Ydy'r amgylchiadau o dan y rhain y gallai unigolion cyfrifol gael eu dynodi gan Weinidogion Cymru, yn hytrach na chan y darparwr gwasanaeth, yn ddigonol a phriodol? Os nad ydynt, eglurwch isod os gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
42 (36%)	17 (15%)	0 (0%)	3 (3%)	55 (47%)

Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r rheoliad hwn gyda sylwadau'n cynnwys bod y darpariaethau yn 'synhwyrol', 'eglwyr iawn', 'eglwyr a chryno'.

Dim ond 3% o ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r Rheoliad.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid ydym yn bwriadu gwneud dim diwygiadau i'r rheoliad hwn. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai Gweinidogion Cymru'n gweithredu'r pwerau a nodir yn y rheoliad. Mae Deddf 2016 yn datgan bod yn rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddynodi unigolyn cyfrifol ar gyfer pob man, neu mewn cysylltiad â ble mae'r gwasanaeth rheoleiddiedig yn cael ei gynnal. Gall gwasanaeth rheoleiddiedig gael ei ganslo lle nad oes unigolyn cyfrifol dynodedig. Mae Deddf 2016 hefyd yn nodi'r meini prawf cymhwysedd ac addasrwydd ar gyfer unigolyn cyfrifol. Y bwriad yma yw galluogi rheoleiddiwr y gwasanaeth, ar gais y darparwr gwasanaeth neu'r unigolyn sy'n gweithredu fel y darparwr gwasanaeth, i ddynodi unigolyn cyfrifol nad yw'n ateb y gofynion cymhwysedd a ddisgrifir yn adran 21(2) o'r Ddeddf os oes amgylchiadau eithriadol. Bydd gofyniad o hyd ar y sawl a ddynodir fel unigolyn cyfrifol gan reoleiddiwr y gwasanaeth i ateb y gofynion addasrwydd a ddisgrifir yn adran 9 o Ddeddf 2016. Byddai hyn yn galluogi gwasanaeth sy'n cael ei redeg yn dda fel arall i osgoi gweld ei gofrestrriad yn cael ei ganslo ac a allai felly barhau i weithredu tra bydd rheoleidd-dra'n dychwelyd i'r sefyllfa a nes bydd unigolyn sy'n ateb y gofynion cymhwysedd ac addasrwydd yn cael ei ddynodi fel unigolyn cyfrifol ar delerau parhaol.

Roedd rhai o'r ymatebion yn codi materion fel trefniadau yswiriant a thaliadau i'r unigolion cyfrifol. Mae'r rhain yn faterion gweithredol i ddarparwyr gwasanaeth.

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) 2017

Mae'r Rheoliadau drafft hyn wedi cael eu datblygu o dan adran 52 y Ddeddf. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gyflwyno hysbysiad cosb i berson yn hytrach na dwyn achos am drosedd, ond dim ond am y troseddau hynny a ragnodir yn y Rheoliadau drafft hyn. Mae'r Rheoliadau drafft yn rhoi'r manylion o ran sut y bydd y system hysbysiadau cosb yn gweithio.

Cwestiwn 22: Ydy'r dull gyda hysbysiadau cosb yn ddigonol a chymesur? Ydy'r lefelau cosb a nodir yn y rheoliadau drafft yn briodol? Os nad ydynt, eglurwch isod os gwelwch yn dda.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb dicio
27 (23%)	18 (15%)	7 (6%)	7 (6%)	58 (50%)

Crynodeb o'r ymatebion

Ymatebodd hanner yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r cynigion. Awgrymodd yr ymatebwyr fod y cynllun hwn yn rhoi cyfle i ddarparwyr i wneud iawn ac i wneud newidiadau angenrheidiol i wasanaethau yn hytrach na dwyn achos.

O'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r Rheoliadau yn y Rhan hon, achos eu pryderon oedd:

- y diffyg gwybodaeth am yr hawl i apelio yn erbyn hysbysiadau cosb benodedig a gyhoeddwyd;
- lefel y dirwyon a osodwyd. Roedd teimlad nad oedd digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i faint y gwasanaeth a ddarparwyd nac i nifer y cleientiaid a effeithiwyd, ac felly roedd teimlad ei fod yn anghymesur;
- ni ddylid defnyddio hysbysiadau cosb oni bai bod darparwyr yn methu â chydymffurfio â rheoliadau'n gyson;
- sut y bydd AGGCC yn gorfodi'r gofynion hyn mewn ffordd deg a chyson;
- mae angen canllawiau cadarnach.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Diben yr hysbysiad cosb yw rhoi cyfle i'r derbynnydd i ryddhau atebolrwydd am gollfarn am y drosedd trwy dalu cosb. Mae hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddelio â mân droseddau o dan Ddeddf 2016 trwy ddulliau gweinyddol. Nid yw Adran 52 o'r Ddeddf - y mae'r rheoliadau'n seiliedig arni - yn cynnwys hawl i apelio. Mae hyn am y byddai hysbysiad cosb yn cael ei gyhoeddi yn lle erlyniad.

Os nad yw unigolyn yn cytuno bod trosedd wedi'i chyflawni, gall wrthod talu'r hysbysiad cosb, ac ar yr adeg honno byddai camau cyfreithiol yn cael eu cymryd.

Bydd gweithredu system o hysbysiadau cosb yn galluogi'r rheoleiddiwr i gael system fwy hyblyg a chadarn ar waith i ddelio â thorri'r rheoliadau. Mae maint y gosb yn adlewyrchu difrifoldeb y troseddau a bwriedir iddynt weithredu fel mesur ataliol i atal torri'r rheoliadau. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithredu system hysbysiadau cosb sy'n gyson a theg, a'r bwriad yw y bydd hysbysiadau cosb yn cael eu cyhoeddi mewn modd cymesur. Bydd AGGCC yn datblygu canllawiau gweithredu cadarn i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn effeithio ar grwpiau gyda nodweddion a warchodir. Y nodweddion a warchodir yw: oed, anabledd, ail-bennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, priodas a phartneriaeth sifil, rhyw a thueddiad rhywiol.

Cwestiwn 23: Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith gadarnhaol ar grwpiau gyda nodweddion a warchodir? Os felly, pa rai a pham / pam ddim?

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi dewis peidio â gwneud unrhyw sylwadau nac wedi ymateb i'r cwestiwn hwn.

O'r rhai a ymatebodd, roedd y rhan fwyaf yn cytuno y byddai'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol yn cael naill ai effaith niwtral neu gadarnhaol ar grwpiau ac unigolion â nodweddion gwarchodedig. Cafwyd adborth cadarnhaol ar y dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y Rheoliadau a'r canllawiau statudol yn hytrach nag un model ar gyfer pawb.

Nododd ymatebwyr eraill hefyd y bydd y Rheoliadau a'r canllawiau statudol, ynghyd â Deddf 2016 yn fwy cyffredinol yn cadarnhau safonau ansawdd gofal cyson i bobl grŵp gwasanaeth.

Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gellid gwneud mwy i roi sylw i hawliau'r unigolyn i wneud penderfyniadau annoeth a'r hawl i roi neu wrthod cydsyniad.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn falch o'r adborth cadarnhaol a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, a chydabyddiaeth i'r dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r dull hwn yn elfen gyson yn natblygiad Deddf 2016, a'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol manwl sy'n cael eu datblygu fel rhan o'i gweithredu.

Mae datblygu dull ystyrlon a chyson ar gyfer y system i reoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol wedi bod yn egwyddor bwysig arall o Ddeddf 2016. Rydym unwaith eto'n falch bod ymatebwyr wedi nodi a chydabod hyn ac wedi dangos bod y sector yn deall negeseuon allweddol Deddf 2016.

O ran yr adborth ar unigolion yn rhoi neu'n gwrthod cydsyniad, mae'r gofynion yn ymwneud â rheolaeth ac ataliaeth, eisoes yn ymdrin â materion cydsyniad a'r angen i ddarparwyr ddilyn darpariaethau yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 lle bo hynny'n briodol. Mae'r adran hon yn awr wedi cael ei hegluro ymhellach i ddangos bod pwyslais y ddarpariaeth hon ar sicrhau bod gweithredoedd gofal a chymorth er budd pennaf yr unigolyn a bod awdurdod cyfreithiol ar waith lle bo angen.

Cwestiwn 24: Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith negyddol ar grwpiau gyda nodweddion a warchodir? Os felly, pa rai a pham / pam ddim?

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi dewis peidio â gwneud unrhyw sylwadau nac wedi ymateb i'r cwestiwn hwn.

O'r rhai a ymatebodd, roedd llawer yn teimlo na fyddai'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol yn cael effaith negyddol arwyddocaol ar yr unigolion hynny â nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, cafodd materion yn ymwneud â'r gofynion ar adeiladau eu codi eto gydag un ymatebwr yn dweud y gallai arwain at effaith negyddol benodol ar blant. Yn benodol, dywedwyd nad oedd y gofynion ar gyfleusterau en-suite ac ystafelloedd a rennir yn helpu i greu awyrgylch gartrefol i blant.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch hawliau pobl i rannu ystafelloedd gan ddweud y dylai cyplau o'r un rhyw gael yr un hawliau â grwpiau eraill i rannu ystafelloedd. Hefyd, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai'r cynigion presennol roi cyplau dibriod o'r un rhyw a heterorywiol o dan anfantais o ran rhannu ystafelloedd.

Nododd ymateb arall nad yw'r Rheoliadau yn delio â meysydd addysg a gwybodaeth i nyrsys cartrefi gofal ar heneiddio a materion gentrolegol. Roedd pryderon y gallai hyn greu system sy'n rhoi pobl hŷn o dan anfantais am na ellir rhoi sylw'n ddigonol i'w hanghenion.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn falch nad oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol yn y cynigion ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Bwriad y Rheoliadau a'r canllawiau statudol hyn yw galluogi gwasanaethau i gynorthwyo pob grŵp i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, gan gynnwys rhai â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn cyd-fynd ag ethos y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a'r egwyddorion yn Neddf 2016 i sicrhau bod dinasyddion yn ganolog i ofal a chymorth.

Fel y nodwyd yn yr ymateb i Gwestiwn 11, mewn ymateb i bryderon am yr effeithiau negyddol posibl ar blant, mae gofynion Rhan 12 yn ymwneud ag adeiladau wedi cael ei diddymu yn achos gwasanaeth â phedwar neu lai o unigolion. Mae hyn yn rhoi sylw i'r pryderon ynglŷn â sicrhau awyrgylch cartrefol i blant.

O ran pryderon nad yw addysg a gwybodaeth i nyrsys gofal cartref ar heneiddio a materion gerontolegol yn cael eu darparu, nid yw'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol wedi'u bwriadu i roi sylw i'r materion ehangach hyn. Mae'r materion hyn yn hytrach yn rhywbeth y byddem yn disgwyl a fyddai'n rhan o hyfforddiant proffesiynol i staff nyrsio oedolion ac yn wir i'r holl staff.

Hoffem wybod beth yw eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) cyfleoedd i bobl gael defnyddio'r Gymraeg; a**
- ii) trin yr iaith Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.**

Cwestiwn 25: Pa effeithiau ydych yn meddwl y byddent yn ei gael? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol

Cwestiwn 26: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut y credwch y gallai'r polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn:

- a) cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl gael defnyddio'r Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg, a**
- b) cael dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl gael defnyddio'r Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg.**

Crynodeb o'r ymatebion

Dewisodd y rhan fwyaf o ymatebwyr beidio ag ymateb i gwestiynau 25 a 26. O'r rhai a ymatebodd cafwyd safbwyntiau cymysg ar sut y gallai'r cynigion effeithio ar y Gymraeg. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno â'r egwyddor o ddiwallu anghenion iaith a chyfathrebu'r unigolyn, boed yr unigolyn yn siaradwr Cymraeg neu beidio. Dywedodd un unigolyn fod hyn yn arbennig o bwysig i lawer o bobl hŷn sy'n dueddol o droi'n ôl at eu hiaith gyntaf, yn enwedig os ydynt yn byw â dementia. Er bod llawer o bobl yn cefnogi'r egwyddor o ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg pan fod angen, tynnodd ymatebwyr sylw at yr anhawster wrth recriwtio a hyfforddi niferoedd digonol o staff Cymraeg eu hiaith. Felly, roeddent yn teimlo y dylid cael peth hyblygrwydd o ran y gofynion hyn.

Roedd rhai ymatebwyr am weld gofynion penodol yn y Rheoliadau a oedd yn ymwneud â'r Gymraeg, yn unol â'r Canlyniad Lles Cenedlaethol sy'n datgan "Caf ofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd angen hynny arnaf." Roeddent yn teimlo nad oedd y Rheoliadau a'r canllawiau statudol yn mynd yn ddigon pell i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau gofal rheoleiddiedig. Dywedodd ychydig o ymatebwyr eu bod yn disgwyl y byddai gwybodaeth yn cael ei darparu yn Gymraeg a Saesneg. Dywedodd nifer fach o ymatebwyr eu bod yn teimlo bod yr angen i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg yn faich, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oes bron dim siaradwyr Cymraeg.

Dywed un ymatebwr o awdurdod lleol eu bod eisoes wedi ymrwymo i'r gofynion o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bwriedir i'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol ategu'r Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, *Mwy na Geiriau*. Mae'r strategaeth yn cynnwys dull systematig i wella gwasanaethau i'r rhai sydd angen neu sy'n dewis cael eu gofal yn Gymraeg. Mae'n seiliedig ar y gwerthoedd y dylai pob unigolyn gael eu trin ag urddas a pharch ac y dylent gael asesiadau manwl a gofal priodol. Mae'r strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd cael gofal yn eich iaith gyntaf "*i lawer o siaradwyr Cymraeg, mae iaith yn elfen hanfodol o'i gofal e.e. rhai pobl â dementia, neu sydd wedi dioddef strôc, a phlant o dan bump oed*".

Rydym wedi ymgorffori'r egwyddorion hyn yn y Rheoliadau, yn bennaf o dan y gofyniad i ddarparwyr gymryd camau rhesymol i ddiwallu anghenion iaith unigolion. O ran y Gymraeg, mae hyn yn golygu bod darparwyr gwasanaeth yn darparu neu'n gweithio i gynnig gwasanaeth yn y Gymraeg i unigolion sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf. Yn achos gwybodaeth i unigolion, mae gofyniad bod yr arweiniad i'r gwasanaeth mewn iaith, arddull, cyflwyniad a fformat priodol, gyda sylw i ddatganiad o ddiben y gwasanaeth. Mae'r gofynion yn y Rheoliadau hefyd yn ategu un o'r egwyddorion craidd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i alluogi pobl i gael llais cryfach yn y gofal a'r cymorth maent yn ei gael, a mwy o reolaeth drosto.

Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n esbonio sut y dylent fel sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ysgogiad i wella'r ddarpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol, neu sy'n cael eu contractio ganddynt. Lle nad yw gwasanaethau'n cael ei darparu gan awdurdod lleol, mae'r Rheoliadau'n ymdrechu i gymryd ymagwedd gymesur tuag at ofynion yn ymwneud â'r Gymraeg, gan roi'r pwyslais ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn sy'n cael gofal a chymorth.

Cwestiwn 27: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi os gwelwch yn dda.

Crynodeb o'r ymatebion

Codwyd nifer o wahanol bwyntiau gan ymatebwyr yn y cwestiwn hwn. Nid yw pwyntiau sydd wedi cael sylw mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn wedi eu hailadrodd yma.

Er bod amrywiaeth o bryderon ac awgrymiadau wedi cael eu lleisio mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, cafwyd peth adborth cadarnhaol hefyd. Yn benodol, mynegodd un ymatebwr werthfawrogiad o'r cyfle i ymgysylltu â'r grwpiau technegol a sefydlwyd i ddatblygu'r cynigion gwreiddiol, gan ychwanegu eu bod yn gwerthfawrogi bod llawr o sylwadau a wnaethpwyd yn y grwpiau hyn wedi cael eu mabwysiadu yn y dogfennau hyn. Dywedodd ymatebwr arall eu bod, ar

y cyfan, yn teimlo bod y Rheoliadau'n deg ac yn rhesymol a'u bod yn croesawu llawer o'r newidiadau.

Codwyd mater eiriolaeth gan sawl ymatebwr wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Yn benodol, tynnodd un ymatebwr sylw at bwysigrwydd gwasanaethau eiriolaeth i unigolion sy'n cael gofal a chymorth, gydag un arall yn dweud nad yw rhai rhannau o Gymru'n cael eu gwasanaethu'n dda gan eiriolwyr. Aeth yr ymatebwr ymlaen i bwysleisio y bydd angen rhoi sylw i ddarpariaeth eiriolwyr (gan gynnwys cyllid digonol) os yw'r gofynion am gael eu gweithredu'n llawn.

Roedd comisiynu'n fater arall a godwyd gan ymatebwyr gydag awgrym i annog comisiynwyr i fabwysiadu a methodoleg archwilio ac arolygu sy'n gydnaws â gofynion y Rheoliadau a'r canllawiau statudol.

Fel pwynt cyffredinol, dywedodd un ymatebwr y byddai un canllaw syml i ddarparwyr sy'n disgrifio'r gwahaniaethau rhwng y cyfundrefnau rheoleiddio presennol a'r rhai newydd yn ddefnyddiol.

Gwnaethpwyd pwynt cyffredinol arall gan sawl ymatebwr a oedd yn tynnu sylw at y pwysau mae'r sector yn ei brofi ar hyn o bryd, gydag un ymatebwr yn dweud y gallai'r Rheoliadau olygu baich ychwanegol ar ddarparwyr.

Gwnaeth un ymatebwr bwynt mwy penodol gan awgrymu y gellid diwygio'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol yn y dyfodol i ychwanegu cyfeiriad at ofynion Hyfforddiant a Dysgu Ôl-gofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru.

Cafwyd adborth hefyd yn gysylltiedig â'r Datganiad o Ddiben a'r adolygiad o ansawdd gofal gydag un ymatebwr yn awgrymu y byddai pro-fformau'n fuddiol er mwyn sicrhau bod pob darparwr yn defnyddio'r un fformat.

Dywedodd un ymatebwr fod y mesuriadau a geir yn y Rheoliadau a'r canllawiau statudol yn golygu newid mawr mewn polisi ac felly bod angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol (RIA).

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd eiriolaeth i lesiant pobl, a'r angen i sicrhau bod darpariaeth ddigonol o eiriolwyr a gwasanaethau eiriolaeth ledled Cymru. I annog a hybu darpariaeth gwasanaethau eiriolaeth, cafodd Cod Ymarfer ar eiriolaeth ei ddatblygu fel rhan o weithredu Deddf 2014. Mae'r Cod yn nodi'r gofynion ar awdurdodau lleol i sicrhau bod mynediad at wasanaethau a chymorth eiriolaeth ar gael i helpu unigolion i ymgysylltu ac i gyfranogi pan fydd awdurdodau lleol yn gweithredu eu dyletswyddau statudol mewn perthynas â hwy. Hefyd, mae eiriolaeth yn cael ei ystyried fel rhan o Gam 3 y broses o weithredu Deddf 2016.

Er nad yw comisiynu'n benodol yn rhan o gwmpas y Rheoliadau a'r canllawiau statudol, mae hyn yn fater pwysig i sicrhau llwyddiant Deddf 2016 yn fwy cyffredinol. Mae angen cefnu ar ddiwylliant lle mae comisiynu'n cael ei weld fel 'swyddogaeth ystafell gefn' sy'n canolbwyntio ar gost yn unig. Dylid yn hytrach ei weld fel rhan o'r dull cyffredinol sydd wedi'i seilio ar gyflawni canlyniadau llesiant yr unigolyn. Yn gysylltiedig â hyn, mae'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol

yn gweithio â chomisiynwyr a darparwyr i ddatblygu dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau i gael comisiynu integredig ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

O ran canllaw sy'n nodi'r gwahaniaethau rhwng y cyfundrefnau rheoleiddio presennol a newydd, mae llawer o wybodaeth ar gael ar Hybu Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru (ar gael yn: <https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-rhagc-rheoliadau>). Mae hyn yn cynnwys cwestiynau cyffredin, gan gynnwys y prif newidiadau sydd wedi dod yn sgil Deddf 2016. Mae gwybodaeth fwy manwl ar gael ar yr Hyb am yr holl Rheoliadau sy'n cael ei datblygu o dan Ddeddf 2016 a'r amserlen ar gyfer eu gweithredu.

Rydym yn cydnabod yr heriau y mae'r sector gofal cymdeithasol yn eu hwynebu. Fodd bynnag, trwy gyflwyno set gyson o ofynion ar gyfer gwasanaethau gofal cartref a gwasanaethau cymorth cartref, dylai'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol olygu llai o faich ar ddarparwyr trwy roi mwy o eglurder ar yr hyn a ddisgwylir ganddynt.

Mewn ymateb i'r awgrym i ddiwygio'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol yn y dyfodol i gynnwys cyfeiriad at ofynion ychwanegol Gofal Cymdeithasol Cymru, caiff hyn ei ystyried fel rhan o adolygiad ehangach o'r Rheoliadau a'r canllawiau. Mae'n debyg y bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal yn y blynyddoedd ar ôl gweithredu Deddf 2016 yn ehangach o 2018 ymlaen.

O ran y Datganiad o Ddiben a'r adolygiad o ansawdd gofal, nid oes bwriad i gyflwyno pro-fforma rhagnodol. Fodd bynnag, bydd AGGCC yn paratoi canllawiau gweithredol ychwanegol ar y Datganiad o Ddiben a'r adolygiad o ansawdd gofal a fydd yn cael eu cyhoeddi ar ei wefan.

Yn gydnaws â deddfwriaeth arall, bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei ddatblygu a fydd yn rhoi gwybodaeth i Weinidogion, y Swyddog Cyfrifyddu, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a rhanddeiliaid ar effaith debygol y ddeddfwriaeth arfaethedig a'r canllawiau statudol. Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cael ei gyhoeddi ar ôl gosod y Rheoliadau gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Adran 3

Crynodeb a dadansoddiad o ymatebion i'r holiadur pobl ifanc

Yn ychwanegol at yr ymarferiad ymgynghori ffurfiol, cafodd ymgynghoriad pobl ifanc – *Sut rydyn ni'n gofalu amdanoch chi* – ei ddatblygu i brofi rhai o'r prif ofynion drafft ar ddarparwyr gwasanaeth cartrefi gofal i blant gyda phobl ifanc mewn gofal preswyl, dros wyliau'r haf. Roedd lefel yr adborth yn galonogol – 26 o ymatebion, o 7 sefydliad gwahanol yng Nghymru. Ceir crynodeb o'r sylwadau ac ymateb Llywodraeth Cymru isod.

Cafodd y prif ofynion ar ddarparwyr gwasanaeth o fewn Rheoliadau drafft Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) 2017 eu crynhoi a'u grwpio, gyda gwybodaeth briodol wedi'i rhoi a chwestiynau wedi'u gofyn.

Pethau mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaeth eu gwneud

Rhaid iddynt wneud yn siŵr bod y cartref yn addas i chi

Roedd hyn yn crynhoi'r gofynion yn Rhan 5 o'r Rheoliadau ynghylch addasrwydd y gwasanaeth (Rheoliad 13); cynlluniau ac adolygiadau personol (Rheoliadau 14 a 16) ac asesiad darparwr (Rheoliad 17).

Gofynnwyd i bobl ifanc: Oes yna unrhyw beth arall y dylai'ch cartref plant chi ei wneud i wneud yn siŵr bod y cartref yn iawn ar eich cyfer chi?

Crynodeb o'r ymatebion

Dyweddodd rhai pobl ifanc y byddent wedi gwerthfawrogi, neu roeddent wedi gwerthfawrogi, cael ymweld â'r cartref a chwrdd â'r rhai sy'n byw yno eisoes, gan gynnwys y staff, cyn symud i mewn. Roedd bod yn ymwybodol o'r disgwyliadau a fyddai arnynt hefyd yn bwysig, ynghyd â gallu gwneud eu hystafell yn fwy personol a chael eu lleoli mewn cartref gyda phobl tua'r un oed â hwy a chyda chydbwysedd rhwng rhywedd y staff.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Dylai canllaw ysgrifenedig ar y gwasanaeth (Rheoliad 18, sy'n cael sylw'n ddiweddarach yn y llyfryn) weithredu fel pecyn croeso, gyda disgwyliadau'r person ifanc a'r darparwr gwasanaeth hefyd yn rhan o drafodaethau ar ddatblygiad cynllun personol ac asesiad darparwr. Mae'r canllawiau statudol yn annog darparwyr gwasanaeth i gynnwys cyfleoedd i ymweld â'r gwasanaeth cyn symud i mewn fel rhan o'u polisi derbyn. Mae'r canllawiau statudol (yn achos Rheoliad 40) hefyd yn annog darparwyr i ystyried dymuniadau a hoffterau'r unigolyn yn y ffordd mae eu hystafell wedi cael ei dodrefnu a'i haddurno, a hynny fel arfer ar ôl iddynt symud i mewn. Mae'r cod ymarfer statudol ar gyfer awdurdodau lleoli'n datgan eisoes y dylai plentyn, pan yn bosibl, gael ymweld â'r cartrefi sy'n cael eu hystyried fel rhan o'r broses benderfynu (Rhan 6 Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya) 2015.) Mae gofyniad hefyd ar awdurdodau lleoli a darparwyr i ystyried

cymysgedd y plant a phobl ifanc mewn cartref wrth wneud lleoliad neu benderfyniad i dderbyn plentyn penodol.

Rhaid iddynt roi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i chi

Roedd hyn yn grwpio dyletswyddau'r darparwr gwasanaeth i roi'r canlynol i bobl ifanc: copi o'u cynllun personol a chofnod o asesiad eu darparwr; canllaw ysgrifenedig i'r gwasanaeth (Rheoliad 18); gwybodaeth yn gysylltiedig â'r Datganiad o Ddiben ac ymwybyddiaeth o bolisiau a gweithdrefnau sy'n weithredol yn y cartref.

Gofynnwyd i bobl ifanc: Pa wybodaeth arall allen nhw ei rhoi i chi? A sut y byddai'n well gennoch chi dderbyn y wybodaeth yma?

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd gwerthfawrogiad cyffredinol o gael eu gwneud yn ymwybodol a chael eu hysbysu o faterion sy'n effeithio arnynt yn bersonol, neu amgylchedd cyffredinol yn y cartref. Awgrymodd un ymatebwr y dylai'r canllawiau gynnwys: "*Pethau sy'n digwydd yn yr ardal, y math o bethau mae pobl ifanc yn hoffi eu gwneud a sut y gallaf fi wneud hyn; y ffordd mae pethau'n cael eu gwneud yn y tŷ a beth a ddisgwylir ohonoch chi*".

Roedd y rhan fwyaf yn gwerthfawrogi cael rhywun i eistedd gyda nhw a thrafod y drefn â hwy, yn enwedig lle'r oedd angen eglurhad pellach. Fodd bynnag, dywedodd un ymatebwr pa mor anodd y gallai hyn fod i bobl ifanc heb ddim neu heb lawer o gyfathrebu geiriol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r canllawiau statudol yn eglur wrth annog darparwyr i sicrhau bod gwybodaeth a roddir i bobl ifanc mewn iaith glir ac mewn fformat sy'n briodol i'w hoedran, i lefel eu dealltwriaeth ac sy'n ystyried unrhyw anawsterau cyfathrebu. Er enghraifft, yn yr iaith a ffeirir ganddynt ac mewn iaith briodol, print bras, sain, gyda chymhorthyddion cyfrifiadurol neu weledol. Mae disgwyl i ddarparwyr hefyd helpu unigolion i ddeall, er enghraifft, gynnwys y canllawiau ysgrifenedig a beth maent yn ei olygu. Gall manylion am yr hyn sy'n digwydd yn yr ardal a sut y gellid galluogi pobl ifanc i gymryd rhan fod yn rhywbeth y gallai darparwyr ei gynnwys yn y canllaw ysgrifenedig, yn ogystal ag unrhyw arferion penodol yn y cartref ac unrhyw ddisgwyliadau, ac y gellid eu trafod wrth ddatblygu eu cynllun personol.

Rhaid iddynt eich cynnwys chi a gwrando ar eich barn

Roedd hyn yn crynhoi'r prif achosion lle mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaeth weithio ag unigolion i gynllunio a darparu gofal a chymorth o ddydd i ddydd iddynt. Roedd hefyd yn cyfeirio ar 'ddyletswydd gonestrwydd' darparwyr h.y. i fod yn agored a gonest yn eu cymorth (Rheoliad 12) a thrin unigolion yn deg pan fyddant yn gwneud cwyn.

Gofynnwyd i bobl ifanc: Beth arall allen nhw ei wneud i'ch cynnwys chi ac i wrando ar eich barn?

Crynodeb o'r ymatebion

Ar y cyfan, roedd pobl ifanc yn teimlo bod eu llais yn cael ei glywed, eu bod yn gwybod pwy i droi atynt, bod gan staff amser ar eu cyfer a'u bod yn gwybod sut y gallant leisio pryderon. Awgrymodd un ymatebwr y dylai pobl ifanc gael adborth ar ôl gwneud cwyn, i gael gwybod pa gynnydd a wnaethpwyd neu sut yr ymdriniwyd â'u cwyn. Soniodd un arall am gyfarfodydd tŷ misol lle'r oedd safbwyntiau'n cael eu clywed a lle'r oedd pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau e.e. gweithgareddau yn y cartref a sut yr hoffent iddo gael ei addurno.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Daethpwyd i'r casgliad fod y Rheoliadau yn ddigonol a nodwyd fod y canllawiau statudol yn annog darparwyr gwasanaeth i sicrhau bod unigolion yn gallu gwneud penderfyniadau am eu bywydau; eu bod yn cael cynnig y cyfle ac yn cael eu galluogi i gynnig eu barn am y ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg o ddydd i ddydd a bod darparwyr yn galluogi unigolion i gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth neu grwpiau hunan eiriolaeth os ydynt yn dymuno. Mae'r Rheoliadau'n galluogi darparwyr i gael polisi a gweithdrefnau cwyno ar waith. Byddwn yn disgwyl bod gweithdrefnau cwyno cartrefi yn gadarn, tryloyw a theg; a bod modd rhoi adborth yn ddi-gwestiwn.

Safonau'r gofal a chymorth y gallwch eu disgwyl

Safonau gwasanaeth cyffredinol

Mae hyn yn crynhoi'r gofynion cyffredinol ynglŷn â'r safonau gofal a chymorth yn Rhannau 7 ac 8 o'r Rheoliadau, gan gynnwys: safonau ar gyfer staff; gwrando ar unigolion; hybu datblygiad personol pobl ifanc; safonau cyffredinol yn achos y cartref a chyfarpar; yr angen i gynnal polisïau a gweithdrefnau'n ymwneud â diogelu; bwlio ac ymddygiad heriol; rheoli arian; a sut y gall y darparwr helpu pobl ifanc i fod yn annibynnol.

Gofynnwyd i bobl ifanc: Oes angen unrhyw safonau eraill, a beth sy'n bwysig i'ch cadw chi'n ddiogel ac yn hapus?

Crynodeb o'r ymatebion

Ar y cyfan, roedd cytundeb fod y safonau cyffredinol yn briodol ac y byddant yn cadw pobl ifanc yn ddiogel a hapus. Roedd y nodweddion a restrwyd yn cynnwys: cael ffiniau priodol, trefn ar fywyd pob dydd, cynlluniau; staff yn onest â phobl ifanc, yn talu sylw iddynt, yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi; eu clywed, eu bod yn ymddiried ynddynt ac yn gofalu amdanynt; yn cael help i fod yn annibynnol; teimlo'n hyderus ac yn cynnal perthnasoedd (â theulu a ffrindiau). Roedd cael eu galluogi i gyflawni eu potensial addysgol yn bwysig a thynnodd ddau ymatebwr sylw at yr angen am help i baratoi i fyw'n annibynnol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bwriad y Rhannau hyn o'r Rheoliadau yw sicrhau bod unigolion yn cael gofal a chymorth sy'n eu galluogi i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl ac i sicrhau bod gan ddarparwyr systemau ar waith i amddiffyn pobl ifanc. Mae'r canllawiau statudol mewn perthynas â Rheoliad 20 yn rhoi sylw uniongyrchol i rai o'r prif faterion a nodwyd, er enghraifft, mae'n annog darparwyr gwasanaeth i sicrhau bod gofal a chymorth yn cael ei ddarparu'n unol ag unrhyw asesiad a chynllun personol (fel y cytunwyd â'r person ifanc), yn diwallu anghenion yr unigolyn ac yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol o ran eu:

- llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol;
- hoffterau diwylliannol, crefyddol, cymdeithasol neu ysbrydol;
- anghenion addysgol, hyfforddiant a hamdden;
- perthnasoedd teuluol a phersonol;
- rheolaeth dros fywyd pob dydd;
- datblygiad deallusol, emosiynol ac ymddygiadol;
- sicrhau hawliau a hawliadau, yn benodol rhai sydd wedi'u hymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)*
- diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod*

* Cafodd y ddau bwynt bwled olaf eu hychwanegu ar ôl yr ymgynghoriad

Hefyd mae'n ofynnol bod darparwyr gwasanaeth yn trin pobl ifanc â pharch, sensitifrwydd, yn hybu eu hunaniaeth a'u hannibyniaeth, ac yn eu helpu i baratoi i symud ymlaen. Mae gan awdurdod lleol a Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO) y plentyn rôl hanfodol i'w chwarae i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel a hapus yn y lleoliad, a bod y canlyniadau a nodwyd yn y cynllun gofal a chymorth Rhan 6 yn cael eu cyflawni.

Y safonau o ran yr adeilad

Roedd hyn yn crynhoi gofynion – wedi'u grwpio'n feini prawf sy'n ymwneud â'r cartref ei hun ac eraill sy'n gysylltiedig ag ystafelloedd gwely unigol – o fewn Rhan 11 o'r Rheoliadau, a'u bwriad yw sicrhau bod gofal a chymorth yn cael ei ddarparu i bobl ifanc mewn lleoliad ac amgylchedd priodol, gyda defnydd o gyfleusterau a chyfarpar a fydd yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol.

Gofynnwyd i bobl ifanc, o ran yr adeilad: Oes yna unrhyw beth ar goll (o'r rhestr)? Beth ydy'r pethau pwysicaf am eich cartref plant?

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r meini prawf a restrwyd, gyda'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn gwerthfawrogi amgylchedd braf, cyfforddus, cartrefol a diogel i fyw ynddo, gyda chymorth gan bobl sy'n malio amdanynt, yn ymddiried ac yn credu ynddynt. Cafwyd sylwadau gan rai ymatebwyr am y gweithgareddau a'r cyfleusterau sydd ar gael yn eu cartrefi, gydag eraill yn tynnu sylw at gymorth i'w helpu i gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau a'u teulu, ac i deimlo eu bod "yn rhan o'r teulu" yn y cartref lle'r oeddent yn aros.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Daethpwyd i'r casgliad fod y Rheoliadau a'r canllawiau statudol yn caniatáu ar gyfer y mathau o nodweddion a nodwyd fel rhai sy'n bwysig gan yr ymatebwyr.

Gofynnwyd i bobl ifanc, o ran eu hystafell wely yn y cartref:

- Oes yna unrhyw beth ar goll (o'r rhestr)?
- Beth ydy'r pethau pwysicaf am eich ystafell wely?
- Oes gennoch chi ddigon o le, rhyddid a phreifatrwydd yn eich ystafell chi?
- Os nad oes, sut y gellid gwella ar hyn?

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y pethau pwysicaf yn cynnwys cael eu gofod eu hunain; lle i storio; preifatrwydd; yr ystafell wedi'i haddurno'n briodol ac yn caniatáu lluniau / posterï; golygfa braf a defnydd o set deledu a chonsol gemau. Awgrymodd dau ymatebwr y dylent gael allwedd i gloi drws eu hystafell. Roedd 22 o'r 26 ymateb (85%) yn cytuno bod ganddynt ddigon o le, rhyddid a phreifatrwydd ar hyn o bryd, er bod dau ymatebwr wedi dweud y byddai ystafell fwy'n welliant. Byddai'n well gan ddau arall pe bai eu hystafelloedd wedi cael eu haddurno'n ôl eu chwaeth eu hunain.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r canllawiau statudol ar gyfer Rheoliad 40 yn annog darparwyr gwasanaeth i "ystyried dymuniadau a hoffterau unigolion yn y ffordd mae eu hystafelloedd yn cael eu dodrefnu a'u haddurno". Dylai hyn, yn ychwanegol at ofynion i sicrhau bod pobl ifanc yn byw mewn amgylchedd priodol, gyda defnydd o gyfleusterau a chyfarpar a fydd yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol, sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n briodol.

Syniadau eraill

Roedd hyn yn gofyn cwestiynau'n ymwneud â'r Rheoliadau yn achos safonau ar gyfer cartrefi plant newydd (neu estyniadau).

Gofynnwyd i bobl ifanc, o ran ystafelloedd ymolchi en-suite:

- Ydych chi'n meddwl bod ar bobl ifanc angen ystafell ymolchi breifat eu hunain gyda sinc, toiled a chawod?
- Pa mor bwysig ydy hyn?
- A fyddai cael eich ystafell ymolchi eich hun yn gwneud ichi deimlo'n well am bethau?

Crynodeb o'r ymatebion

Byddai'n well gan y rhan fwyaf o ymatebwyr gael eu hystafell ymolchi eu hunain, y gallent ei defnyddio pa bryd bynnag y mynnant ac a fyddai'n eu hannog i gael cawod yn amlach ond roedd tri ymatebwr (o'r un cartref) yn

cytuno eu bod yn hapus i rannu yn eu cartref presennol. Roedd 16 o 26 o ymatebwyr (62%) yn teimlo bod cael eu hystafell ymolchi eu hunain naill ai'n bwysig neu'n bwysig iawn, roedd un yn teimlo nad oedd hyn yn bwysig a dewisodd naw beidio ag ateb.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Ar ôl ystyried barn y bobl ifanc, a rhanddeiliaid eraill (gan gynnwys darparwyr) trwy'r ymgynghoriad ffurfiol, rydym wedi newid y Rheoliadau sy'n golygu lle mae pedwar neu lai o unigolion yn byw mewn cartref plant (heb gynnwys y staff) yna ni fydd y gofyniad i gael cyfleusterau en-suite ym mhob ystafell wely yn berthnasol. Mae hyn yn golygu na fydd mwy na phedwar o bobl ifanc yn rhannu ystafell ymolchi. Bernir fod hyn yn briodol ac yn gymesur (gan fod llawer o gartrefi plant newydd yn dai 'teuluol' domestig) a bydd yn helpu i gadw awyrgylch cartrefol. Bydd anghenion plentyn penodol, fel y nodwyd yn eu cynllun gofal a chymorth Rhan 6 (ac sy'n cael ei adlewyrchu yn eu cynllun personol), hefyd yn ffactor wrth benderfynu a ddylai person ifanc gael cyfleusterau en-suite ai peidio.

Gofynnwyd i bobl ifanc, o ran ystafelloedd gwely a rennir:

- **Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?** Na fyddai gofyn i bobl ifanc rannu oni bai y byddai hynny'n helpu i hybu eu lles (a'i fod wedi'i gynnwys yn eu cynllun gofal a chymorth); y gofynnir iddynt rannu â brawd neu chwaer sy'n oedran tebyg a'u bod yn hapus i rannu.
- **Pa bryd fydddech chi ddim eisiau rhannu ystafell?**
- **Ydych chi'n meddwl mai chi ddylai ddewis os ydych chi eisiau rhannu?**
- **Oes gennoch chi eich ystafell eich hun nawr?**

Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd cymysgedd o ymatebion gyda 12 o 26 o ymatebwyr (46%) yn dweud eu bod yn meddwl ei fod yn syniad da, gyda 11 (42%) yn anghytuno a thri heb fynegi hoffter. Ni fyddai rhai ymatebwyr yn hoffi rhannu, gydag eraill yn derbyn y gallai fod yn briodol mewn rhai amgylchiadau. Roedd bron pob un, 22 o 26 (85%), yn credu mai hwy ddylai ddewis a ydynt yn dymuno rhannu ystafell. Dywedodd bob ymatebwyr ond un (96%) fod ganddynt eu hystafell eu hunain ar hyn o bryd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Y dybiaeth yn y Rheoliadau yw y dylai pob plentyn neu berson ifanc gael ei ystafell ei hun, heblaw mewn amgylchiadau penodol iawn (er enghraifft, brodyr neu chwiorydd iawn o'r un rhyw). Rhaid ystyried dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc bob amser, ac mae'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol yn datgan hyn yn eglur.

Ni chafwyd dim sylwadau ychwanegol o bwys.

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

Tabl cryno

Math o ymatebwr	Nifer yr ymatebion	Canran yr ymatebion
Dienw	24	21%
Unigolion	2	2%
Academwyr	1	1%
Comisiynwyr	2	2%
Byrddau Iechyd	2	2%
Llywodraeth Leol	15	13%
Rheoleiddiwr	1	1%
Cyrrff Cynrychioli	22	19%
Darparwyr Gwasanaethau	32	28%
Trydydd Sector	10	9%
Undebau Llafur	1	1%
Arall	3	3%
Cyfanswm	115	102%

*Mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r pwynt canran agosaf.

Rhif	Cyfrinachol Y / N	Enw	Sefydliad / Ar ran	Math o ymatebwr
1.	✓	Toby Stockton	Everycare Cardiff	Darparwyr Gwasanaethau
2.	✓	Breda Griffiths	St. Teresa's Rest Home	Darparwyr Gwasanaethau
3.	✓	Sue E. Jordan	Prifysgol Abertawe	Academwyr
4.	✓	Kim Moore	Mental Health Care UK	Darparwyr Gwasanaethau
5.	✓	Ben Jenkins	Cherish Care Homes (Wales) Ltd	Darparwyr Gwasanaethau
6.	✓	R.W.Ebley		Unigolion
7.	✓			Dienw
8.	✓			Dienw
9.	✓	Marcus Wilkes	Cartref Nyrsio Alexandra	Darparwyr Gwasanaethau
10.	✓	Tess Saunders	RNIB Cymru	Trydydd Sector
11.	✓	Gerry Evans	Gofal Cymdeithasol Cymru	Rheoleiddiwr
12.	✓	Cathrin Manning	Y Groes Goch yng Nghymru	Trydydd Sector
13.	✓	Hazel Jukes	Dementia Friends	Llywodraeth Leol
14.	✓	Justin Otto-Jones	Parkside House	Darparwyr Gwasanaethau
15.	✓	Tina Donnelly	Coleg Nyrsio Brenhinol	Cyrrff Cynrychioli

16.		✓	Nygaire Bevan	Tîm Rhanbarthol Gwent Fwyaf	Llywodraeth Leol
17.	✓				Dienw
18.	✓				Dienw
19.		✓	Christopher Williams	Age Cymru	Trydydd Sector
20.		✓	Jeff Hawkins	Age Connects Caerdydd a'r Fro	Trydydd Sector
21.		✓	Joel Martin	Cyngor Sir Caerfyrddin	Llywodraeth Leol
22.	✓				Dienw
23.		✓	Keith Harding	Canolfan Arloesedd Clwyfau Cymru Cyfyngedig	Arall
24.	✓				Dienw
25.		✓	Timothy Banner	Fferyllfa BIP Caerdydd a'r Fro	Byrddau Iechyd
26.		✓	Adrian Roper	Co-op Cartrefi Cymru	Cyrff Cynrychioli
27.		✓	Crash Wigley	Stonewall Cymru	Trydydd Sector
28.		✓	Peter Sissons ar ran Robin Harragin Hussey	Christian Science Committees on Publication	Cyrff Cynrychioli
29.		✓	Sue Leonard	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro	Cyrff Cynrychioli
30.	✓				Dienw
31.		✓	Andy Rutherford	Unsain Cymru	Undebau Llafur
32.		✓	Rick Wilson	Community Lives Consortium	Cyrff Cynrychioli
33.	✓				Dienw
34.	✓				Dienw
35.		✓	Paul Thomas	Landsker Care Limited	Darparwyr Gwasanaethau
36.		✓	James Wright	Co-operatives UK	Cyrff Cynrychioli
37.		✓	Jonathan N. Symms	Pen-Y-Garth Care Homes Limited	Darparwyr Gwasanaethau
38.		✓	Catherine Roberts ar ran Annie O'Reilly	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	Llywodraeth Leol
39.		✓	Emma Murphy	Cyngor Sir y Fflint a phartneriaid	Llywodraeth Leol
40.	✓				Dienw
41.	✓				Dienw
42.		✓	Zena Winstone ar ran Amanda Evans	Mirus-Wales	Darparwyr Gwasanaethau
43.	✓				Dienw
44.		✓	Paul Harding	Hosbis Marie Curie, Caerdydd a'r Fro	Darparwyr Gwasanaethau
45.		✓	Barry Gallagher	Drive	Darparwyr Gwasanaethau

46.		✓	Kevin Hughes	Grŵp Tai Pennaf	Darparwyr Gwasanaethau
47.		✓	Sarah Capstick	Cyngor Trydydd Sector Caerdydd	Trydydd Sector
48.		✓	Isobel Lloyd ar ran Alison Clements	Gofal a Chymorth Pobl (Grŵp Pobl)	Darparwyr Gwasanaethau
49.	✓				Dienw
50.	✓				Dienw
51.	✓				Dienw
52.	✓				Dienw
53.		✓	Hugh Gibson	Cartref Preswyl Orchard House	Darparwyr Gwasanaethau
54.		✓	Lorraine Morgan	Ymgynghorydd Annibynnol ar Heneiddio	Unigolion
55.	✓				Dienw
56.		✓	Christopher Manthorp	Barchester Healthcare	Darparwyr Gwasanaethau
57.		✓	Nicola Evans ar ran Sarah Rochira	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	Comisiynwyr
58.		✓	Donna Coyle	Canolfan Cydweithredol Cymru	Arall
59.	✓				Dienw
60.		✓	Sian Hopkins ar ran Giovanni Isingrini	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Llywodraeth Leol
61.		✓	Louise Bertorelli	Cartref Preswyl The Oaklands	Darparwyr Gwasanaethau
62.	✓				Dienw
63.		✓	Rehaz Abdoolla	Gofal Cymru Care Ltd	Darparwyr Gwasanaethau
64.		✓	Bruce McLernon	Y Fforwm Darparwr Cenedlaethol (Cymru) (NPF)	Cyrff Cynrychioli
65.		✓	Daniel Jones	Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig (UKHCA)	Cyrff Cynrychioli
66.	✓				Dienw
67.		✓	Ceri Roberts	Cariad Care Homes Limited	Darparwyr Gwasanaethau
68.		✓	Dave Atkins	Orchard Care Group	Darparwyr Gwasanaethau
69.		✓	Glyn Williams	Gwyddfor Residential Ltd	Darparwyr Gwasanaethau
70.		✓	Paul Gregory	iMeUs, Pendarren Court	Darparwyr Gwasanaethau
71.		✓	Sue Hullin	Tracscare	Darparwyr Gwasanaethau
72.	✓				Dienw

73.		✓	Angela Bourge ar ran Jane Farr	Partneriaeth Rhanbarthol Datblygu Gweithlu Gofal a Chymorth Caerdydd a'r Fro	Cyrff Cynrychioli
74.		✓	Morgan Griffith-David	Cymdeithas Clefyd Alzheimer Cymru	Trydydd Sector
75.		✓	Carly Dix	Community Housing Cymru	Cyrff Cynrychioli
76.		✓	Rosie Raison – awduraeth wedi'i phriodoli i'r sefydliad	Coleg Nyrso Brenhinol Cymru	Cyrff Cynrychioli
77.		✓	Peter Orford	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Llywodraeth Leol
78.		✓	Jodie Williamson ar ran Elen	Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol yng Nghymru	Cyrff Cynrychioli
79.		✓	Juliet Green	Action on Hearing Loss	Trydydd Sector
80.		✓	Jo Ward ar ran Charlotte Walton	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Llywodraeth Leol
81.	✓				Dienw
82.		✓	Simon Jones	Gwasanaethau Cymdeithasol Dinas a Sir Abertawe – Gwasanaethau i Oedolion	Llywodraeth Leol
83.		✓	Louise McDonald ar ran Jo Williams	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Gwasanaethau i Oedolion	Llywodraeth Leol
84.		✓	Peter Max	Integra Community Living Options	Darparwyr Gwasanaethau
85.		✓	Natasha Hirst	Anabledd Cymru	Trydydd Sector
86.		✓	Sean Oneill	Plant yng Nghymru	Cyrff Cynrychioli
87.		✓	Louise McDonald ar ran Alyson Hoskins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	Llywodraeth Leol
88.		✓	Oliver Townsend	Cymorth Cymru	Cyrff Cynrychioli
89.		✓	Sharon Miller ar ran Toby Young (Cyngor Dinas Caerdydd) a Lance Carver (Cyngor Bro Morgannwg) Timau Rheoli	Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg	Llywodraeth Leol
90.		✓	Yvonne Apsitis	Grŵp Cyfeirio Arbenigol ar Ofal Cartref yng Nghymru	Cyrff Cynrychioli
91.		✓	Jo Griffin	Pwyllgor Cynghorol Therapiau Cymru	Cyrff Cynrychioli

92.		✓	Mark Crossley	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	Arall
93.		✓	Gabe Conlon	ADSS Cymru	Cyrff Cynrychioli
94.		✓	Carol Walker	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Llywodraeth Leol
95.		✓	Maria Bell	Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru	Cyrff Cynrychioli
96.	✓				Dienw
97.	✓				Dienw
98.		✓	Claire Holt ar ran Susan Cooper	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	Llywodraeth Leol
99.		✓	Mary Wimbury	Fforwm Gofal Cymru	Cyrff Cynrychioli
100		✓	Vin West	Grŵp Mynediad Arfon	Darparwyr Gwasanaethau
101		✓	David Smith	Co-ops and Mutuals Wales	Cyrff Cynrychioli
102		✓	Deko Aden	Walsingham Support	Darparwyr Gwasanaethau
103		✓	Matthew Richards	Cyngor Sir Ceredigion	Llywodraeth Leol
104		✓	Hayley Jones	BIP Aneurin Bevan	Byrddau Iechyd
105		✓	Mari Huws	Comisiynydd y Gymraeg	Comisiynwyr
106		✓	Christopher Lyons ar ran Mary Cottrell	The Lodges Private Residential Care	Darparwyr Gwasanaethau
107		✓	Sarah Price	Cartref Gofal The Coach House	Darparwyr Gwasanaethau
108		✓	Gwladys Barnfield	Cartref Gofal Blaenmarlais	Darparwyr Gwasanaethau
109		✓	Paula Wicks	Cartref Gofal Bush House	Darparwyr Gwasanaethau
110		✓	Philip Williams	MIND Dyffryn Clwyd	Trydydd Sector
111		✓	Paul Stewart	Garnant House	Darparwyr Gwasanaethau
112		✓	Jemima Foy obo Jenny Pugh-Jones	Pwyllgor Fferyllol Cymru	Cyrff Cynrychioli
113		✓	Brian West	Cymdeithas Cartrefi Gofal Bro Morgannwg	Cyrff Cynrychioli
114		✓	Ann Bateman	Inspiration Lifestyle Services	Darparwyr Gwasanaethau
115		✓	Matthew Murray- James	Wrexham Senior Homecare Limited	Darparwyr Gwasanaethau

Atodiad B – Crynodeb o'r newidiadau a wnaed i Reoliadau Cam 1 i ystyried canlyniadau ymgynghoriad Cam 2

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017

- Wrth wneud cais i gofrestru, dylai darparwyr gwasanaeth roi manylion am unrhyw geisiadau blaenorol i gofrestru, neu gofrestriadau, â rheolyddion eraill yn y DU
- I sicrhau cysondeb, mae'r term 'defnyddiwr gwasanaeth' wedi cael ei newid am 'yr unigolyn' a'r un diffiniad o 'gwasanaeth' ag a defnyddir yn Rheoliadau Cam 2
- Gwnaethpwyd rhai newidiadau i'r wybodaeth sydd ei hangen gan ymgeiswyr wrth gofrestru, i sicrhau paredd, gan gynnwys gwybodaeth am fethdaliad, mathau o wybodaeth gyswllt a rhifau elusen / cwmni ac yn y blaen
- Cydnabyddiaeth na fydd rhai ymgeiswyr a fu'n hunangyflogedig yn y gorffennol o bosibl yn gallu nodi 2 ganolwr
- Cydnabod gwahanol strwythurau busnes e.e. cwmnïau daliannol ac is-gwmnïau a phartneriaethau
- Egluro ystyr 'mae cymwysterau a phrofiad o'r fath yn angenrheidiol'
- Amodi bod gwybodaeth bellach am y gwasanaeth yn cael ei chynnwys yn y Datganiad o Ddiben
- Cydnabod bod modd darparu gwasanaethau gofal cartref o ac mewn perthynas â lle, nid yn unig mewn lle (fel yn achos gofal preswyl)
- Cryfhau gofynion tystiolaethol o ran adeiladau
- Mireinio'r ddogfennaeth ragnodol y bydd ei hangen i ymgeisydd ei chyflwyno i ategu eu cais i gofrestru
- Gofynion ychwanegol sy'n nodi sut y bydd gwasanaeth yn cael ei ddarparu i ddiwallu anghenion unigolion ac i'w cynorthwyo i gyflawni eu canlyniadau personol
- Mireinio'r gofyniad ym mharagraff 21(j) i bwysleisio ym mha ffordd mae adeilad, cyfleusterau a chyfarpar yn addas ar gyfer y gwasanaeth, gan roi sylw yn y datganiad i ystod o anghenion
- Diddymu'r gofyniad i Unigolyn Cyfrifol ddatgan eu bod wedi darllen a chytuno â'r wybodaeth a roddwyd gan yr ymgeisydd, a'u bod yn gallu cydymffurfio â'r dyletswyddau a roddwyd arnynt fel Unigolyn Cyfrifol.

I gloi, gwnaethpwyd y newidiadau hyn i helpu i sicrhau bod gan AGGCC fel rheolydd y gwasanaeth, ddigon o wybodaeth i benderfynu a yw ymgeisydd yn debygol o allu darparu gwasanaeth da ac i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf a'r Rheoliadau.

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol (Cymru) 2017

- Mae'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno datganiad blynyddol wedi cael ei ymestyn o 28 diwrnod i 56 diwrnod ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol
- Mae'r categorïau staff wedi cael eu newid i gynnwys manylion nyrsys cofrestredig yn ogystal â staff gofal nyrsio
- Eglurhad o'r defnydd o'r gair 'lle' yn achos gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety a phob 'ardal' ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref
- Gofyniad i gynnwys enw pob unigolyn cyfrifol ar gyfer pob lle neu ardal

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau) (Cymru) 2017

Ni wnaed dim newidiadau i'r Rheoliadau hyn.